

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy


Ymchwil gymdeithasol
Social research



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Adolygiad o Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC)



Adolygiad o Uned Addysg Ariannol Cymru

Arad Research

Mae'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd i Lywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Julie Owens

Y Gangen Ymchwil a Gwerthuso

Llywodraeth Cymru

Cyffordd Llandudno

Conwy

LL31 9RZ

Ffôn: 0300 062 5484

E-bost: Julie.Owens@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2011

ISBN

© Hawlfraint y Goron 2011

Cynnwys

CRYNODEB GWEITHREDOL.....	4
1 Cyflwyniad i'r adolygiad.....	11
2 Proffil addysg ariannol ac ymwybyddiaeth o rôl UAAC	19
3 Gwasanaethau UAAC: barn athrawon a chynghorwyr Awdurdodau Lleol	28
4 Awgrymiadau ymarferwyr ar gyfer gwneud gwelliannau	42
5 Effaith ar arferion yr ystafell ddosbarth ac ar ddeilliannau dysgu	45
6 Cefnogi addysg ariannol mewn cyd-destun ehangach.....	50
7 Cyflawni yn erbyn cerrig milltir y Cynllun Strategol.....	55
8 Casgliadau ac Argymhellion.....	59
Atodiad 1: Canllawiau testun a ddefnyddiwyd wrth gasglu tystiolaeth.....	76
Atodiad 2: Enghreifftiau o gynlluniau gwersi a ddatblygwyd	79

CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad o Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Arad Research.
2. Prif nod yr astudiaeth oedd adolygu'r hyn y mae UAAC yn ei wneud a'r hyn y mae'n ei darparu, gan ganolbwyntio ar y tri model cymorth a ddefnyddir ar hyn o bryd. Prif amcanion yr adolygiad oedd asesu p'un a yw UAAC wedi cyrraedd y cerrig milltir penodol a nodwyd yn ei chynllun strategol ar gyfer 2009-11; nodi blaenoriaethau ar gyfer cymorth pellach y tu hwnt i fis Ebrill 2011; ac argymhell strwythurau posibl ar gyfer gweithredu'r blaenoriaethau hyn.
3. Sefydlwyd Uned Addysg Ariannol Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2008, er mwyn cynrychioli un o ffrydiau allweddol *Mae Pawb yn Cyfrif*, sef Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru¹. Nod craidd UAAC yw '*ceisio cefnogi ymarferwyr ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig er mwyn iddyn nhw allu darparu rhaglen wedi'i chynllunio a'i chydlynu o addysg ariannol sy'n rhoi'r gallu i ddysgwyr reoli eu cyllid a gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus.*'
4. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth yn cynnwys adolygu dogfennau allweddol a oedd yn ymwneud â gweithrediadau UAAC; cynnal cyfweiliadau gyda chynghorwyr Awdurdodau Lleol, aelodau o grŵp cynghori UAAC a phartneriaid eraill; ymweld ag ysgolion gan gynnwys ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig i gyfweled ag athrawon a disgyblion; yn ogystal ag arsylwi ar sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd gan staff UAAC.

Proffil addysg ariannol ac ymwybyddiaeth o UAAC

5. Yn seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynwyd gerbron tîm yr adolygiad, ymddengys bod UAAC wedi datblygu enw da ymysg ysgolion a'u bod hwy'n ymddiried yn yr

¹ <http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/090924fininclstratcy.pdf>

Uned. Mae ymarferwyr a chynghorwyr Awdurdodau Lleol, fel ei gilydd, o'r farn bod yr Uned yn cynnig arbenigedd ac maent yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Mae UAAC wedi llwyddo i wneud hyn mewn cyfnod cymharol fyr o amser, gyda'r Uned yn gweithredu ar gapasiti llawn ers 18 mis yn unig.

6. Mae cynhwysiant ariannol a llythrennedd ariannol yn bynciau cynyddol bwysig sy'n cael eu trin a'u trafod. Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru sef '*Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol*²', ynghyd â'r ymateb cadarnhaol gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chymunedau, yn ategu pwysigrwydd y mater hwn ymhellach yng Nghymru.
7. Ystyrir bod addysg ariannol yn berthnasol ar draws y cwricwlwm ysgol ac ar draws pob cyfnod allweddol. Mae i addysg ariannol hefyd fanteision ehangach y mae nifer o ymarferwyr yn eu hystyried yn ganolog i les ac iechyd da, i'r broses o baratoi ar gyfer y byd gwaith ac er mwyn galluogi disgyblion i ddod yn ddinasyddion gweithgar sydd ag ymwybyddiaeth gymdeithasol.
8. Mae ffordd UAAC o weithio wrth hyrwyddo addysg ariannol wedi bod yn gynhwysol. Mae'r Uned yn cynnig amrywiol wasanaethau i ysgolion ym mhob lleoliad, gan wneud yn siŵr bod disgyblion mewn ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRUs) a darparwyr addysg eraill nad ydynt yn perthyn i'r brif ffrwd yn elwa ar y cymorth sydd ar gael.

Barn am wasanaethau UAAC

9. Roedd y rheiny a fu'n rhan o'r adolygiad yn gadarnhaol am y gwasanaethau. '*Effeithiol*', '*addysgiadol*' a '*phleserus*' oedd yr ansoddeiriau a ddefnyddiwyd gan athrawon wrth iddynt ddisgrifio'r cymorth a gynigiwyd i ysgolion.
10. Bu'r adolygiad yn edrych ar wasanaethau a ddarperir o dan y tri model cymorth eang:

² Adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol* (Tachwedd 2010)

Model 1: dylunio a darparu datblygiad proffesiynol parhaus (CPD)

11. Mae'r rhaglen ddigwyddiadau CPD wedi bod yn boblogaidd iawn a thrwy ymwneud yn uniongyrchol â'r rheiny sy'n gyfrifol am ddarparu addysg ariannol yn yr ystafell ddosbarth, ystyrir ei bod yn un o gonglfeini'r cymorth a gynigir gan yr Uned. Mae ymarferwyr yn cydnabod bod pecyn cymorth ystyrlon ac integredig ar gael i ysgolion sy'n gysylltiedig ag addysg ariannol, gyda CPD UAAC yn cynnig cymorth ymarferol i gefnogi'r 'Canllawiau i Ymarferwyr'³ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2010.
12. Ystyriwyd bod cynnig 'hyfforddiant wedi'i rannu' yn ddull arbennig o effeithiol sef hyfforddiant a gynhaliwyd dros ddeuddydd, ychydig wythnosau ar wahân. Mae'r dull hwn yn gofyn i athrawon roi'r hyn y maent wedi'i ddysgu ar waith gan gyflwyno eu profiadau gerbron yr ymarferwyr eraill yn ystod yr ail sesiwn.

Model 2: cyngor ac arweiniad drwy gyfrwng amrywiol fewnbynnau i wahanol grwpiau: gan gynnwys drwy gyfrwng cyfarfodydd cydgysylltwyr ABCh a Mathemateg yr Awdurdodau Lleol, mewnbynnau byrrach drwy gyfrwng cyfarfodydd penaethiaid a digwyddiadau eraill wedi'u targedu at arbenigwyr pwnc.

13. Mae'r modd y bu UAAC yn cynnig cymorth drwy gyfrwng y model hwn yn amrywio ac yn cynnwys gwahanol lefelau o fewnbwn yn y cyfarfodydd a drefnir gan gynghorwyr Awdurdodau Lleol a rhwydweithiau eraill. Fel rheol, darperir mewnbynnau hirach yng nghyfarfodydd y cydgysylltwyr ABCh a Mathemateg a drefnir gan Awdurdodau Lleol. Lle caiff amser ei neilltuo i drafod addysg ariannol. Mae cynghorwyr UAAC hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio cyfleoedd i gael cyfrannu at amrywiol rwydweithiau a fforymau. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys cyfarfodydd penaethiaid Awdurdodau Lleol; digwyddiadau Gyrfa Cymru; a diwrnod hyfforddi a drefnwyd gan CBAC.
14. Mae'n llai amlwg i ba raddau y mae'r model hwn – sydd yn ymwneud yn bennaf â chodi ymwybyddiaeth a chyfeirio – yn effeithio ar yr hyn a ddarperir yn yr ystafell ddosbarth a'r arferion a welir yno.

³ Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2010) *Addysg Ariannol ar gyfer Pobl Ifanc rhwng 7 ac 19 oed yng Nghymru. Canllawiau i ysgolion a cholegau.*

Model 4: ymgynghoriaeth ad hoc ar y safle a chyngor i ysgolion unigol

15. Mae UAAC yn darparu cymorth ar y safle i ysgolion, gan ymateb i geisiadau penodol am gymorth a gwybodaeth. Mewn rhai achosion, mae cynghorwyr UAAC yn gweithio gyda grŵp bach o athrawon mewn un maes pwnc (e.e. ABCh mewn ysgol uwchradd). Mewn achosion eraill, bydd UAAC yn gweithio gydag uwch-dîm rheoli ysgol a chyda grwpiau staff (traws-adrannol) mwy o faint.
16. Gall gweithio gydag ysgolion unigol i ddatblygu dull o weithio sydd wedi'i gynllunio a'i strwythuro olygu bod addysg ariannol yn dod yn rhan ganolog o'r cwricwlwm ar draws ystod o feysydd pwnc a chyfnodau allweddol. Fodd bynnag, mae angen dull â gwell strwythur a chynllun er mwyn gwneud yn siŵr bod modd rhannu'r hyn a gaiff ei ddysgu diolch i gymorth mor ddwys yn effeithiol gydag ysgolion eraill, ar lefel leol a chenedlaethol.

Canfyddiadau cyffredinol o UAAC

17. Roedd y rheiny a gafodd eu cyfweild o'r farn bod rhinweddau, sgiliau a gwybodaeth cynghorwyr cyfredol UAAC yn arbennig o werthfawr ac fe'u hystyrir yn ffactorau pwysig yn effeithiolrwydd yr Uned.
18. Mae UAAC wedi meithrin cysylltiadau cryf ar lefel leol yng Nghymru; yn yr un modd, mae ganddi berthnasau gwaith da gyda sefydliadau ledled y DU. Drwy gyfrwng ei rhwydweithiau a'i chysylltiadau ar draws y DU, mae'r Uned wedi perswadio sefydliadau masnachol ar lefel y DU i wneud yn siŵr bod adnoddau a deunyddiau ar gael yn ddwyieithog er mwyn adlewyrchu anghenion y cwricwlwm yng Nghymru.

Effaith ar arferion yr ystafell ddosbarth a deilliannau dysgu

19. Mae'r Uned wedi bod yn gatalydd wrth annog cynghorwyr Awdurdodau Lleol i fod yn fwy rhagweithiol wrth hyrwyddo addysg ariannol, boed hynny drwy drefnu digwyddiadau rhwydweithio a hyfforddiant neu drwy ddosbarthu adnoddau. Gellir gweld effaith yr Uned hefyd mewn gweithgareddau sy'n deillio o'r gwaith hwn ac ymddangosiad modelau cymorth amgen ar gyfer addysg ariannol ar lefel leol.

20. Mae'n parhau i fod yn rhy gynnar i sôn am effaith addysg ariannol a chymorth UAAC ar ddeilliannau dysgu disgyblion. Fodd bynnag, gwelwyd peth tystiolaeth bod disgyblion yn dechrau datblygu mwy o ymwybyddiaeth o gyllid yn y gymdeithas.
21. Ar lefel gynradd ac mewn ysgolion arbennig, nodwyd bod hyblygrwydd i weithio drwy gyfrwng themâu. Mae hyn yn golygu bod modd cyflwyno addysg ariannol mewn modd creadigol a thrawsbynciol. Mewn gwrthgyferbyniad, soniodd nifer o gynghorwyr ac athrawon uwchradd am y trafferthion a ddaw yn sgil cwricwlwm gorlawn sydd wedi'i rannau'n adrannau a'r rhwystrau a ddaw yn sgil hyn o ran cyflwyno addysg ariannol.

Cefnogi addysg ariannol mewn cyd-destun ehangach

22. Mae'r Uned wedi dangos ei gallu a'i pharodrwydd i ehangu ei gorwelion o ran y mathau o wasanaethau y gall eu cynnig a'r sectorau y mae'n eu cefnogi. Mae cynghorwyr UAAC wedi darparu gwasanaethau i gefnogi addysg ariannol yn y Cyfnod Sylfaen, mewn lleoliadau dysgu fel teulu, Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon ac mewn Addysg Bellach. Mae'r rhain yn feysydd lle y mae galw am gymorth parhaus pellach wedi'i nodi.

Casgliadau cyffredinol

23. Mae UAAC wedi cyrraedd y cerrig milltir a nodir yn ei Chynllun Strategol ar gyfer 2009-10 a 2010-11.
24. Gwelwyd cefnogaeth unfrydol bron gan benaethiaid, athrawon a chynghorwyr yr Awdurdodau Lleol i'r Uned barhau. Fodd bynnag, mae nifer o'r farn bod gofyn i UAAC bellach gymryd cam i gyfeiriad newydd. Teimlir y dylid symud erbyn hyn i gynnig mwy o gymorth i gynllunio ac ymgorffori addysg ariannol o ran rhoi'r cwricwlwm ar waith.
25. Yn nhermau gwerth am arian a rhannu arfer da, mae gofyn gwneud yn siŵr bod yr hyn a gaiff ei ddysgu o ganlyniad i'r cymorth a ddarperir gan UAAC yn dod ar gael i'r ystod ehangaf bosibl o ysgolion. Mae'n hanfodol bod y gwaith o ddosbarthu a rhaeadru gwybodaeth am arferion effeithiol yn dod yn rhan ganolog

o'r modd y mae UAAC yn gweithio. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y modd y darperir y cymorth.

26. Mae gofyn mynd ati i ddatblygu adnoddau ymhellach gan gynnwys deunyddiau cyfrwng Cymraeg.

27. Mae'r adolygiad o'r farn bod y modd y caiff Uned Addysg Ariannol Cymru ei threfnu a'i strwythuro ar hyn o bryd wedi bod yn effeithiol. Mae'r Uned wedi cael effaith nodedig ar lefelau ymwybyddiaeth a phroffill addysg ariannol. O ystyried capasiti'r Uned, mae wedi cyflawni gymaint mwy na'r disgwyl yn bennaf diolch i frwdfrydedd, egni ac ymrwymiad y staff sy'n rhan o'r prosiect.

28. Mae tîm yr adolygiad wedi dod i'r casgliad y dylai UAAC barhau i gynnig rhaglen o wasanaethau cymorth. Un dewis o ran gweithredu hyn fyddai rhoi swyddogaethau a gwasanaethau UAAC ar gontract, gan nodi'r gwasanaethau penodol y mae'n rhaid eu darparu a pha dargedau penodol y mae'n rhaid eu cyrraedd. Mae tîm yr adolygiad yn awgrymu y dylid ystyried y dewis hwn ymhellach ochr yn ochr â'r strwythurau darparu posibl eraill a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Argymhellion

29. Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, mae'r adroddiad yn cyflwyno dau argymhelliad ar bymtheg sy'n canolbwyntio ar amrywiol faterion. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i:

- Gynnal rhaglen gymorth i hyrwyddo addysg ariannol, gan gynnwys hyfforddiant CPD i ysgolion ledled Cymru;
- Cynnig mwy o ffocws ar gynllunio a datblygu cynlluniau gwaith sy'n ymgorffori addysg ariannol ar draws amrywiol feysydd pwnc;
- Parhau gyda'r model cymorth ar y safle, gan sefydlu fframwaith clir ar gyfer dewis ysgolion i ymweld â nhw a ffurfioli system er mwyn gwneud yn siŵr y gellir rhannu'r dysgu sy'n deillio o gymorth mor ddwys yn effeithiol gydag ysgolion eraill, ar lefel leol a chenedlaethol;

- Cyhoeddi arferion da ar wefan UAAC mewn perthynas â'r broses o weithio ar draws ysgolion cyfan wrth ddarparu addysg ariannol;
- Ystyried sut y gellir ymgorffori addysg ariannol ar draws cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen;
- Ehangu presenoldeb UAAC ar y we;
- Adeiladu ar gyswllt cychwynnol gyda thimau dysgu fel teulu, ymestyn y cymorth a gynigir i Awdurdodau Lleol eraill;
- Archwilio cyfleoedd pellach i gysylltu â darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru.

1 Cyflwyniad i'r adolygiad

Diben yr adroddiad

- 1.1 Fis Tachwedd 2010, comisiynwyd Arad Research i gynnal adolygiad o Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC). Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad hwnnw ac yn cynnwys casgliadau ac argymhellion i helpu i lywio cyfeiriad cymorth a ddarperir i hyrwyddo addysg ariannol mewn ysgolion a lleoliadau eraill yn y dyfodol.

Nod, cwmpas ac amcanion yr adolygiad

- 1.2 Nod cyffredinol yr astudiaeth, fel sydd wedi'i nodi ym manyleb yr ymchwil, oedd adolygu'r modd yr oedd UAAC yn gweithredu ac yn darparu ar y dechrau, gan ganolbwyntio ar y tri model cymorth a ddefnyddir ar hyn o bryd. Nodwyd mai prif amcanion yr adolygiad, mewn perthynas uniongyrchol â'r tri model darparu, oedd:

- asesu i ba raddau y mae UAAC wedi cyrraedd y cerrig milltir penodol a nodwyd hyd yma yn y cynllun strategol ar gyfer 2009-11 ac yn mynd i'r afael â'r targedau a'r nodau cyffredinol a nodwyd yn y Cynllun Strategol.
- edrych y tu hwnt i fis Ebrill 2011, a chynnig argymhellion ar y canlynol:
 - blaenoriaethau o ran cynnig rhagor o gymorth er mwyn darparu addysg ariannol mewn ysgolion uwchradd a chynradd;
 - y potensial i ymestyn cymorth tebyg i sectorau eraill ac yn enwedig i faes Addysg Bellach;
 - beth fyddai'r ffordd orau o gynnig cymorth o'r fath – h.y. a yw strwythur UAAC fel y mae yn “addas i'r diben” ac os nad yw'n addas, meddwl am wahanol ffyrdd o weithio.

- 1.3 Cafodd yr astudiaeth ei dylunio fel adolygiad o weithrediad a swyddogaethau UAAC yn hytrach nag fel gwerthusiad llawn. Felly, mae'n cyflwyno tystiolaeth a gasglwyd o nifer cyfyngedig o ysgolion, Awdurdodau Lleol a chan ymatebwyd

eraill ar faterion a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen gymorth gyffredinol a gynigiwyd gan gynghorwyr UAAC.

Methodoleg

- 1.4 Er mwyn dilyn y canllawiau a oedd wedi'u nodi yn y gwahoddiad gwreiddiol i dendro ac ar ôl cynnal cyfarfod dechrau'r prosiect, cytunwyd y byddai'r adolygiad yn seiliedig ar y tasgau canlynol:

Casglu Data

- Ymchwil Ddesg
 - Dadansoddi tystiolaeth ddogfennol, gan gynnwys canllawiau ac adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi; gwerthusiadau blaenorol; cofnodion a phapurau cyfarfodydd grŵp cynghori UAAC; adolygiad bras o ddeunyddiau ac adnoddau addysg ariannol; adborth gan y rheiny a fu'n cymryd rhan yng nghyrsiau hyfforddi UAAC; dadansoddiad o gyflwyniadau ar addysg ariannol a roddwyd gan ymarferwyr.
- Cyfweiliadau lled-strwythuredig wyneb yn wyneb a dros y ffôn rhwng aelodau tîm yr adolygiad a'r canlynol (ewch i [Atodiad 1](#) i weld y canllawiau a ddefnyddiwyd wrth gynnal y cyfweiliadau).
 - Cynghorwyr Awdurdodau Lleol (cynhaliwyd 14 cyfweiliad i gyd);
 - Partneriaid eraill, gan gynnwys aelodau o grŵp cynghori UAAC (cynrychiolwyr o'r Is-adran Cwricwlwm (Llywodraeth Cymru), Uned Cynhwysiant Ariannol (Llywodraeth Cymru), Estyn, Colegau Cymru, Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CFEB), Grŵp Cynghorwyr Mathemateg Cymru;
 - Staff UAAC (cynhaliwyd cyfweiliadau mewn dau gam: ar ddechrau'r adolygiad a thua terfyn yr adolygiad);
 - Staff mewn tîm dysgu fel teulu Awdurdod Lleol (2 gyfweiliad).

- Ymweliadau ag ysgolion / cyfweiliadau gydag athrawon a phenaethiaid:
 - 5 ysgol uwchradd, 4 ysgol gynradd ac 1 ysgol arbennig, gan gynnwys trawstoriad o ysgolion (gwledig, trefol, cyfrwng Cymraeg) sydd wedi derbyn gwahanol fodelau cymorth gan UAAC.
 - [Ysgolion uwchradd: ysgol Uwchradd Tredelerch, Ysgol Uwchradd Dyffryn Teifi, Ysgol Uwchradd y Rhyl, Ysgol John Bright, Ysgol Uwchradd Gatholig Sain Alban]
 - [Ysgolion cynradd: Ysgol Gynradd Plasnewydd, Ysgol Gynradd Brynmill, Ysgol Gynradd Cross Hands, Ysgol Gynradd Llanedeyrn]
 - [Ysgol arbennig: Ysgol Penmaes, Aberhonddu]
 - Trafodaethau grŵp ac unigol anffurfiol gyda disgyblion ar ôl gwersi addysg ariannol (mewn 4 o'r ysgolion uchod).
- Arsylwi ar sesiynau hyfforddi
 - Bu aelodau tîm yr adolygiad yn bresennol mewn sesiynau hyfforddi (un sesiwn datblygiad proffesiynol parhaus (CPD) uwchradd a chynradd) i arsylwi ac i gynnal cyfweiliadau ychwanegol gydag athrawon ysgol. (Cynhaliwyd cyfweiliadau anffurfiol gydag 8 athro ychwanegol yn ystod y sesiynau hyfforddi hyn).

Dadansoddi a chofnodi

- Dadansoddwyd tystiolaeth yn unol ag amcanion yr adolygiad a'r "meysydd allweddol i fynd i'r afael â hwy" fel sydd wedi'i nodi ym manyleb yr ymchwil.
- Cafodd yr adroddiad hwn a'r atodiadau eu drafftio gan dîm yr adolygiad. Fodd bynnag, cafodd aelodau o staff UAAC ac aelodau'r grŵp cynghori gyfle i gyfrannu at y materion ffeithiol ac i roi eu sylwadau ar yr argymhellion a'r testun drafft yn dilyn cyflwyniad ym mis Ebrill 2011.

Trosolwg o Uned Addysg Ariannol Cymru

1.5 Sefydlwyd Uned Addysg Ariannol Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2008, gan gynrychioli un o ffrydiau allweddol *Mae Pawb yn Cyfrif*, Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru⁴. Yn y lle cyntaf, disgrifiwyd prif weithgareddau'r Uned fel a ganlyn:

- Mapio mecanweithiau cymorth ar gyfer addysg llythrennedd ariannol ar draws y DU;
- Creu cysylltiadau gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru megis Sgiliau Sylfaenol Cymru, y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;
- Dod o hyd i adnoddau a deunyddiau sydd eisoes yn bodoli;
- Dyfeisio mecanweithiau cymorth peilot ar gyfer llythrennedd ariannol y sector uwchradd.

1.6 Yna, cafodd nodau, amcanion a rhaglen waith yr Uned eu mireinio a'u nodi yng *Nghynllun Strategol 2009-11 Uned Addysg Ariannol Cymru*⁵. Dywed y cynllun strategol hwn: '*Mae Uned Addysg Ariannol Cymru yn ceisio cefnogi ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn iddyn nhw allu darparu rhaglen wedi'i chynllunio a'i chydlynw o addysg ariannol sy'n rhoi'r gallu i ddysgwyr reoli eu cyllid a gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus.*'

1.7 Er mwyn gwireddu'r nod hwn, bydd yr Uned yn cydweithio ag ymarferwyr mewn ysgolion ac Awdurdodau Lleol, a chyda chydweithwyr mewn sefydliadau Addysg Bellach, y sector gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector i:

1. Godi ymwybyddiaeth ymarferwyr o bwysigrwydd addysg ariannol a'r cymorth y gall UAAC ei ddarparu.
2. Rhoi arweiniad a chynghor i ymarferwyr ar wneud y defnydd gorau o gyfleoedd ar gyfer addysg ariannol yn y cwricwlwm.

⁴ <http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/090924fininclstratcy.pdf>

⁵ <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/wfeu/?lang=cy>

3. Rhoi cyngor ar ddeunyddiau ac adnoddau addysgu priodol a chymorth ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus.
4. Cydweithio â darparwyr adnoddau addysgu i ddatblygu adnoddau sy'n cydnabod cwricwlwm ac anghenion ieithyddol unigryw Cymru.
5. Adnabod a lledaenu arferion da wrth ddarparu addysg ariannol ar draws Cymru a'r DU.

Strwythur rheoli UAAC a ble mae'n perthyn

1.8 Mae UAAC wastad wedi bod yn rhan o Grŵp Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion (PPIEY) yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS). Mae'r Uned yn cynnwys dau Gynghorydd Addysg Ariannol gydag un yn canolbwyntio ar gefnogi darpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 2 (dysgu ar gyfer plant 7-11 oed) a'r ail yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ar gyfer plant 11-19 oed mewn ysgolion. Caiff gwaith yr Uned yn ei grynsyth ei reoli gan PPIEY ac fe gaiff yr Uned ei chefnogi gan grŵp cynghori sy'n cynnwys aelodau o amrywiol fyd o leoliadau sydd â diddordeb mewn addysg ariannol bersonol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CFEB, Awdurdodau Lleol, ysgolion, Estyn a Cholegau Cymru. Mae'r grŵp cynghori yn cynnig cyngor i Lywodraeth Cymru ar yr Uned a'i staff ar:

- faterion allweddol y mae gofyn mynd i'r afael â nhw o ran darparu addysg ariannol i blant 7-19 oed sydd mewn addysg llawn amser;
- datblygu a gweithredu rhaglen waith ar ffurf dreigl UAAC a'i chymorth ar gyfer ymarferwyr;
- monitro a gwerthuso'r gwerth a ychwanegir gan yr Uned i'r addysg ariannol a ddarperir;
- y potensial i ymestyn rôl a chylch gwaith yr Uned y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol o ddwy flynedd a bennwyd;
- datblygu partneriaethau gyda sefydliadau'r trydydd sector a'r gwasanaethau ariannol er mwyn gwella cyfleoedd ar gyfer addysg ariannol.

Esblygiad yr Uned a modelau darparu

1.9 Ers sefydlu'r Uned fis Medi 2008, mae llawer o ddatblygiadau wedi bod.

Cafodd gweithgareddau cychwynnol UAAC, fel y nodwyd yn y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, eu trosi'n gerrig milltir allweddol a nodwyd yn y cynllun strategol. Ers mis Ebrill 2010, mae UAAC wedi bod yn cyflwyno rhaglen gymorth ar sail dreigl ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd wrth gynnig addysg ariannol. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar dri phrif model darparu a gafodd eu treialu cyn hynny yn 2009-10⁶, yn bennaf gan y sector uwchradd, ond hefyd mewn ysgolion cynradd ac mewn ysgolion arbennig. Dyma'r modelau:

Model 1: Partneriaeth gyda thimau gwella ysgolion yr Awdurdodau Lleol er mwyn **dylunio a darparu datblygiad proffesiynol parhaus diwrnod llawn** er mwyn cynllunio a darparu addysg ariannol.

Model 2: Mae'r model hwn yn cwmpasu ystod eang o fewnbynnau i wahanol grwpiau. **Mae'n cynnwys cyngor ar ddarparu / ar y ddarpariaeth** addysg ariannol yng nghyfarfodydd cydgysylltwyr pwnc ABCh a Mathemateg ar gyfer ymarferwyr ysgol a gynhelir gan yr Awdurdodau Lleol. Hefyd, mae'n cynnwys mewnbwn a chymorth yng nghyfarfodydd Grwpiau Cynghorwyr ABCh a Mathemateg Cymru Gyfan. Mae mewnbwnau byr eraill yn cynnwys mynychu cyfarfodydd penaethiaid, mynychu digwyddiadau a gynhelir gan Gyrfa Cymru ar gyfer cydgysylltwyr ysgol a mynychu sesiynau a drefnir gan gyrrff dyfarnu ar gyfer arbenigwyr pwnc.

Model 4: Ymgynghoriaeth a chyngor ar y safle ar sail ad hoc i ysgolion unigol mewn ymateb i geisiadau penodol am gymorth.

⁶ Rhoddwyd terfyn ar bedwerydd model (Model 3 yn wreiddiol) mewn ymateb i werthusiad o weithgarwch pilot UAAC a gynhaliwyd gan CRG Research. Roedd hyn yn cynnwys cymorth dwys ar y safle ar gyfer ysgolion uwchradd unigol (3-5 diwrnod) i roi cyngor ar y gwaith o gynllunio a darparu Addysg Ariannol a chyda'r nod o adnabod "ysgolion disglair" a allai ddosbarthu arfer da i eraill.

- 1.10 Mae'r adolygiad hwn yn ystyried cynnydd a wnaed yn erbyn y cerrig milltir allweddol a nodir yn y cynllun strategol. Hefyd, mae'n cyflwyno tystiolaeth gan ymarferwyr, cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill am effaith ac effeithiolrwydd yr amrywiol fodelau darparu a ddefnyddiwyd gan Gynghorwyr Addysg Ariannol UAAC.
- 1.11 Cyn ystyried y dystiolaeth a gasglwyd wrth gynnal yr adolygiad, rhaid sôn am rai pwyntiau cyffredinol ond hollbwysig am y gwasanaethau a ddarperir gan UAAC. Er bod y modelau cymorth a ddisgrifir uchod yn adran 1.8 yn cynnig fframwaith defnyddiol er mwyn deall natur gyffredinol y cymorth a ddarperir gan ddau gynghorydd UAAC, nid ydynt yn cwmpasu'r ystod lawn o amrywiol gyngor, cymorth a gweithgareddau a gynhaliwyd. Fe glywodd tîm yr adolygiad am bob math o gymorth ychwanegol gwahanol a gynigir gan y cynghorwyr (anffurfiol a ffurfiol) gan gynnwys gweithgareddau rhwydweithio a dosbarthu. At hynny, mae'r cymorth a ddarperir yn cynnwys amrywiadau ar y modelau, fel sydd wedi'i nodi uchod. Er enghraifft, weithiau, gall ymgysylltu ag ysgolion olygu defnyddio 'hybrid' o'r modelau. Yn olaf, fel sydd wedi'i nodi yng ngwerthusiad blaenorol CRG Research⁷, mae peth gorgyffwrdd rhwng y modelau a ddarperir.
- 1.12 Efallai mai'r ffordd orau o ddisgrifio gwaith UAAC fyddai dweud mai rhaglen gymorth arbennig o amrywiol sy'n gweithio ar ffurf dreigl ydyw, sy'n ceisio bod yn hyblyg o ran y modd y bydd yn gweithio gydag ysgolion gan fod mor gynhwysol ag sy'n bosibl, a chan gynnig cymorth i ysgolion o bob cwr o Gymru.

Cydnabyddiaethau / Diolchiadau

- 1.13 Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser a'u hymdrechion er mwyn llunio'r adolygiad hwn. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i ddau gynghorydd UAAC sydd wedi darparu gwybodaeth arbennig o ddefnyddiol am eu gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn gwerthfawrogi pob cyfraniad yn fawr, boed yn gyfweiliadau unigol gyda

⁷ Adroddiad CRG Research ar ran Llywodraeth Cymru, *Evaluation of the Welsh Financial Education Unit* (Mawrth 2010)

rhanddeiliaid allweddol neu'n ystod ymweliadau ag ysgolion. Darparwyd corff sylweddol o dystiolaeth a gwybodaeth i'r tîm, sydd wedi creu sylfaen i'r adroddiad hwn.

Strwythur yr adroddiad

1.14 Mae strwythur yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r amcanion a nodir ym manyleb yr ymchwil a'r meysydd allweddol a nodwyd fel rhai yr oedd gofyn mynd i'r afael â nhw. Mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:

- Proffil addysg ariannol ac ymwybyddiaeth o rôl UAAC (adran 2);
- Gwasanaethau UAAC: barn athrawon a chynghorwyr Awdurdodau Lleol (adran 3);
- Awgrymiadau ymarferwyr ar gyfer gwneud gwelliannau (adran 4);
- Effaith ar arferion yr ystafell ddosbarth ac ar ddeilliannau dysgu (adran 5);
- Cefnogi addysg ariannol mewn cyd-destun ehangach (adran 6);
- Cyflawni yn erbyn cerrig milltir y Cynllun Strategol (adran 7);
- Casgliadau ac argymhellion (adran 8).

1.15 Caiff astudiaethau achos byr eu cynnwys yn yr adroddiad er mwyn dangos yr amrywiol ffyrdd y caiff addysg ariannol ei darparu mewn ysgolion. Nid yw'r rhain o reidrwydd wedi'u bwriadu i fod yn astudiaethau achos o arferion gorau; yn hytrach, maent yn enghreifftiau o sut y mae'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn mynd i'r afael â darpariaeth addysg ariannol yn dilyn y cymorth a gafwyd gan UAAC.

2 Proffil addysg ariannol ac ymwybyddiaeth o rôl UAAC

- 2.1 Bu cyfweiliadau gydag athrawon, penaeithiaid a chynghorwyr ABCh a Mathemateg Awdurdodau Lleol yn edrych ar safbwyntiau ym maes addysg ariannol, pa mor bwysig ydyw ym marn eraill a'i statws cyfredol yn y cwricwlwm ysgol.

Pwysigrwydd addysg ariannol

- 2.2 Cafwyd cydnabyddiaeth eang yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw ac ymysg cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol o'r angen am addysg ariannol a'r galw cynyddol amdani. Yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, cafwyd teimlad bod lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth ariannol disgyblion wrthi'n gostwng yn gyffredinol. Bu sôn am nifer o ffactorau a allai fod yn cyfrannu at y patrwm hwn gan gynnwys y ffaith fod plant *'yn gweld llai o arian yn eu bywydau bob dydd'*. Gwelodd un athro baradocs bod pobl ifanc yn byw mewn *'cymdeithas fasnachol'* gynyddol; mae gan nifer ohonynt ffonau symudol ac maent yn ddefnyddwyr gweithredol yn eu rhinwedd eu hunain; fodd bynnag, yn aml, maent yn methu â gweld y cysylltiad rhwng y pethau y maent yn eu defnyddio bob dydd ag arian:

"Mae llawer o'r disgyblion yr ydw i'n eu dysgu jest yn methu deall gwerth y pethau y mae nhw'n eu defnyddio bob dydd a ddim chwaith yn deall materion ariannol – o ble daw arian a'i bwysigrwydd." (Athro, ysgol uwchradd)

- 2.3 Roedd athro arall yn teimlo bod galw arbennig i wella gallu ariannol drwy gyfrwng y cwricwlwm ysgol. Bu'n egluro:

"Yn aml, bydd plant yn gadael yr ysgol heb ddeall o gwbl – mae addysg ariannol wedi diflannu'n llwyr o'u profiad addysgol; mae gofyn i ddisgyblion ac athrawon sylweddoli bod llythrennedd ariannol yn rhan bwysig o'u haddysg gymdeithasol." (Athro, ysgol uwchradd)

- 2.4 Roedd llawer o'r rheiny a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod yr hinsawdd economaidd sydd ohoni yn tynnu sylw at yr angen i gynnig addysg ariannol

effeithiol. Soniodd eraill bod addysg ariannol effeithiol yn allweddol er mwyn torri'r cylch o dlodi sy'n bodoli mewn nifer o deuluoedd a chymunedau ledled Cymru.

Addysg ariannol o fewn y cwricwlwm ysgol

- 2.5 Mae'r athrawon a gafodd eu cyfsweld yn ystod yr adolygiad yn meddwl bod gan addysg ariannol berthnasedd ar draws y cwricwlwm ac, yn wir, ar draws pob cyfnod allweddol. Nodwyd bod addysg ariannol yn ychwanegu gwerth at y gwaith o gyflwyno nifer o feysydd pwnc, yn bennaf oherwydd ei pherthnasedd a'r modd y gellir ei darparu mewn cyd-destunau bywyd go iawn.
- 2.6 Mae'r enghreifftiau a nodir yn yr astudiaeth achos isod yn dangos bod cyflwyno addysg ariannol drwy gyfrwng prosiectau ac enghreifftiau bywyd 'go iawn' yn aml yn ennyn ymgysylltiad a diddordeb sylweddol ymysg disgyblion a hefyd yn cyflwyno ystod o sgiliau bywyd eraill iddynt ar yr un pryd.

Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Plasnewydd

Mae'r ysgol gynradd hon yn Ne Cymru yn enghraifft o sut y mae addysg ariannol wedi'i hymgorffori ar draws yr ysgol gyfan drwy gyfrwng cyfres o brosiectau ymarferol. Datblygodd ymrwymiad yr ysgol i gyflwyno addysg ariannol ar draws y cwricwlwm ar ôl diwrnod HMS llawn a gynigiwyd gan UAAC yn yr ysgol.

Yn ystod y diwrnod HMS, rhoddwyd adnoddau i athrawon ac aethpwyd ati i archwilio syniadau a ffyrdd o gynnal prosiectau addysg ariannol ar gyfer pob dosbarth yn yr ysgol. Yn dilyn yr hyfforddiant, defnyddiwyd rhai o'r syniadau hyn fel rhan o Wythnos Mathemateg lle rhoddwyd swm o arian i bob un o ddosbarthiadau'r ysgol er mwyn cynnal prosiect i wella'r ysgol.

Mewn cysylltiad â rhaglen ysgol iach yr ysgol a'r gwaith dosbarth ar 'gostau byw', sefydlodd un dosbarth Blwyddyn 5 siop byrbrydau iach yn ystod yr egwyl er mwyn codi arian i brynu gemau i'w defnyddio mewn gweithgareddau ar ôl ysgol. Roedd hyn yn golygu gwaith i gynllunio beth y gallent ei werthu, am faint y byddai modd gwerthu'r cynnyrch, benthyca'r arian, recriwtio athrawon i helpu gyda'r stondin ac yna cyfrifo'r elw. Yn ystod un amser egwyl, casglwyd £40, sydd wedi'i ddefnyddio i brynu'r gemau.

Penderfynodd dosbarth Blwyddyn 5 a 6 arall fynd ati i ddefnyddio'r arian i addurno'r toiledau. I ddechrau, aethant ati i holi am ddyfynbrisiau am y gwaith gan beintiw'r ac roeddent wedi *'dychryn'* o weld beth fyddai'r gost. Yna, aethant i ymweld â manwerthwr cynnyrch adeiladu lleol i gyfrifo cost y paent. Er mwyn gwneud hyn, roedd yn rhaid mesur yr ardal yr oeddent am ei phaentio. Fe wnaethant brynu'r paent a phaentio'r toiledau eu hunain. Gyda'r arian a oedd dros ben, prynwyd drychau. O ganlyniad, fe ddysgodd y plant sgil newydd sef rheoli eu cyllidebau eu hunain, edrych ar incwm a gwariant ac yn wir fe roddodd y profiad *'syniad go iawn iddyn nhw o beth yw cost pethau'*. Maent hefyd wedi derbyn perchenogaeth dros y toiledau: meddai un athro *'os bydd unrhyw un yn mynd i'r toiledau ac yn gwneud unrhyw ddifrod, mae'r plant yn mynd yn gandryll'*.

O dan arweinyddiaeth yr eco-gydgysylltydd, bu un o'r dosbarthiadau Blwyddyn 3 a 4 yn cynnal prosiect i wella iard yr ysgol drwy osod cafnau i blanhigion. Roedd hyn yn golygu defnyddio sgiliau Mathemateg ac arian megis cyfrifo arwynebedd a chyfaint a chwilio am y prisiau gorau a'r bargeinion a oedd yn cynnig y gwerth gorau mewn canolfannau garddio lleol. Yn y ffair Nadolig, fe baratodd y dosbarth lyfryn yn trafod masnach deg a oedd yn trafod materion yn ymwneud â chost, niferoedd a gwneud elw. Yn y ffair, casglwyd tua £60 wrth werthu eitemau ar y stondinau, a fydd yn cael ei ddefnyddio i brynu offer i'r ysgol yn y dyfodol.

Mae dosbarth Blwyddyn 3 / 4 arall yn gweithio ar brosiect a oedd ar y gweill i ailwampio'r llyfrgell. Fe gyflwynodd y disgyblion gais i'r pennaeth am grant a chyflwynwyd £100 iddynt. Dechreuodd y disgyblion drwy edrych mewn catalogau a phrisio deunyddiau a llafur gan *'sylweddoli'n fuan iawn nad yw £100 yn gallu prynu rhyw lawer'*. Felly, aethant at y gofalwr i ailgylchu cypyrddau llyfrau ac fe gynigiodd un o'r tadau sy'n saer coed ei amser yn rhad ac am ddim. Soniodd yr athro pa mor *'ddiddorol oedd gwyllo'r disgyblion yn sylweddoli gwerth arian'*. 'Fe sylweddoloni ni beth sydd gennym ni a beth sydd ei angen arnom ni ac fe arweiniodd hyn at lawer o drafod.'

Mae'r ysgol yn bwriadu parhau i ddatblygu ei rhaglen addysg ariannol ac wedi ymrwymo i'w hymgorffori yn rhan o bob maes pwnc yn hytrach na mynd i'r afael â hyn fel rhywbeth i'w ychwanegu ar ben y gwaith arall yn unig. Maent hefyd wedi cytuno i beilota deunyddiau newydd ar gyfer UAAC.

- 2.7 Mae athrawon yn y sector cynradd yn gweld cyfleoedd i ymgorffori addysg ariannol mewn ystod o feysydd pwnc. Yn wir, darparwyd nifer o enghreifftiau i dîm yr adolygiad (gweler adran 3). Yn y sector uwchradd, nodwyd bod addysg ariannol yn cael ei chynnig yn bennaf drwy gyfrwng gwersi ABCh a Mathemateg.

'Mae Mathemateg uwchradd yn gweithio o dan gwricwlwm gorlawn felly mae'n bwysig bod y maes yn cael ei drafod mewn gwersi ABCh hefyd. Wedi dweud hynny, mae'n llwyddo i ychwanegu gwerth at y cwricwlwm Mathemateg. Mae'n ffordd o gyflwyno Mathemateg a rhoi'r pwnc yn ei gyd-destun. Mae'n rhoi ystyr i'r gwaith ac yn ffordd ddefnyddiol iawn i blant gael mynediad at Fathemateg.' (Cyngorydd Mathemateg Awdurdod Lleol)

Manteision ehangach addysg ariannol

- 2.8 Bu'r rheiny a gafodd eu cyfweld hefyd yn sôn am fanteision ehangach cynnig addysg ariannol mewn ysgolion. Fe'i hystyrir yn gwbl ganolog i les ac iechyd da, yn ffordd o baratoi at y byd gwaith a dod yn ddinasyddion rhagweithiol sy'n ymwybodol yn gymdeithasol; fel y cyfryw, roedd nifer yn teimlo *"na ddylai gael ei ystyried fel rhywbeth ychwanegol yn unig ac na ddylid ei gyflwyno felly ychwaith mewn ysgolion."* (Cyngorydd Mathemateg cynradd Awdurdod Lleol). Roedd nifer o gynghorwyr ABCh yn meddwl ei fod yn berthnasol i'r agenda gwrth-dlodi, sy'n gynyddol fagu proffil uchel. Yn wir, soniodd un o'r bobl a gafodd eu cyfweld fod y Strategaeth Tlodi Plant⁸ (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2011) yn cyfeirio at yr angen i ysgolion ganolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a thorri'r cyswllt rhwng cyrhaeddiad addysgol a thlodi.

Ffordd gynhwysol UAAC o weithio: gwaith gydag ysgolion arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRU)

- 2.9 Mae UAAC yn cynnig amrywiol wasanaethau i ysgolion ym mhob math o leoliadau, gan wneud yn siŵr fod disgyblion mewn ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion (PRUs) a darparwyr addysg eraill nad ydynt yn perthyn i'r brif ffrwd yn elwa ar y cymorth a gynnigir. Ystyrir bod yr agwedd hon ar waith UAAC yn arbennig o bwysig gan fod nifer o bobl ifanc sydd mewn ysgolion arbennig ac Unedau PRU yn arbennig o agored i rai o effeithiau gwaethaf gallu ariannol gwael.

⁸ Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Tlodi Plant Cymru* (Chwefror 2011)

- 2.10 Mae cynghorwyr UAAC wedi bod yn cynnig cymorth i ymarferwyr mewn ysgolion arbennig. Daeth cryn dipyn ynghyd i ddigwyddiad hyfforddi ysgolion arbennig Gogledd Cymru ac mae cyfarfodydd gyda rhwydwaith o benaethiaid ysgolion arbennig De Cymru wedi'i gynnal i drafod digwyddiadau CPD undydd, gan ganolbwyntio ar wahanol bynciau a grwpiau oedran. Y bwriad yw cynnal y rhain yn ystod y misoedd nesaf, gyda'r ddau o gynghorwyr UAAC yn rhan o'r gwaith o drefnu a darparu'r hyfforddiant.
- 2.11 Mae UAAC wedi cysylltu â phob Uned Cyfeirio Disgyblion a darparwyr addysg eraill nad ydynt yn perthyn i'r brif ffrwd yng Nghymru er mwyn cynnig cymorth i ddarparu addysg ariannol. Dywed cynghorwyr UAAC ei bod hi'n galonogol gweld faint sydd wedi ymgysylltu â nhw ar y cam cynnar hwn. Mae cynrychiolwyr rhai Unedau PRU wedi mynychu digwyddiadau CPD undydd UAAC neu wedi bod mewn cyfarfodydd penaeithiaid Mathemateg / cydgysylltwyr ABCh yr Awdurdodau Lleol lle mae'r Uned wedi cael rhoi mewnbwn. Mae nifer o ymarferwyr ar ôl nad ydynt eto wedi elwa ar wasanaethau a chyrsgiau hyfforddi UAAC ac felly mae gwaith yn mynd rhagddo i ymgysylltu â'r rhain, ac yn enwedig gydag Unedau PRU, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn barod ac yn gymwys i gynnig addysg ariannol. Mae UAAC eisoes wedi ymweld ag Unedau PRU yn Abertawe, Casnewydd, RhCT a Bro Morgannwg ac mae cynlluniau ar droed i ddychwelyd i 3 o'r rhain i gynnal gwaith pellach – gan gynnwys CPD hanner diwrnod yn y Fro.

Astudiaeth achos: Ysgol Penmaes, Aberhonddu

Mae'r ysgol hon yn Aberhonddu yn darparu amgylchedd dysgu arbenigol i ddisgyblion 2-19 oed. Ceir pwyslais ym Mhenmaes ar rymuso disgyblion i wneud penderfyniadau am eu haddysg a chynnig ystod o brofiadau. Mae hyn yn cynnwys prosiectau a mentrau sy'n gysylltiedig â llythrennedd ariannol. Mae Ysgol Penmaes yn cynnwys disgyblion sydd â namau amlsynnwyr, disgyblion sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ac ymddygiad heriol.

Mae Ysgol Penmaes wedi bod yn cynnal Wythnos Mathemateg ers blynnyddoedd bellach. Y llynedd, thema'r wythnos oedd 'Arian', gan ganolbwyntio ar helpu disgyblion i fod yn ddoeth ac yn ddeallus gydag

arian. Rhoddodd y pennaeth £10 i bob dosbarth a gofynnwyd iddynt oll feddwl am ffyrdd o wneud i'r arian dyfu. Yn ystod gwasanaeth yr wythnos ganlynol, gofynnwyd i ddosbarthiadau roi cyflwyniad ar yr hyn a wnaed er mwyn i'r £10 gwreiddiol 'dyfu'.

Bu pob dosbarth yn trafod eu syniadau gan fynd ati i ddewis un i'w roi ar waith. Roedd y syniadau'n cynnwys:

- Sefydlu maes parcio 'talu ac arddangos' ar gyfer staff ac ymwelwyr;
- Gwerthu cŵn poeth amser egwyl;
- Golchi ceir;
- Creu calendr ysgol i'w werthu i rieni a staff;
- Gwerthu byrbrydau iach.

Roedd y gweithgareddau yn arloesol ac yn llwyddiannus. Roeddynt hefyd yn rhai proffidiol: o wariant cychwynnol o £60, gwnaed cyfanswm o £390 sef elw o £330. Bu cyngor yr ysgol yn meddwl beth i'w wneud gyda'r elw a chytunwyd y dylid rhoi'r arian i elusennau o'u dewis nhw.

Soniodd y pennaeth bod y gweithgareddau hyn wedi bod yn boblogaidd iawn a bod y disgyblion wedi dangos lefelau cymhelliant da. Roedd y gweithgareddau yn cysylltu'n dda ag amrywiol agweddau ar y cwricwlwm a phynciau eraill a archwilwyd yn y dosbarthiadau gan gynnwys Mathemateg, Dinasyddiaeth Fyd-eang, Gyrfaedd a'r Byd Gwaith, Masnach Deg, Ysgolion ECO ac ABCh. O ran datblygu sgiliau, bu disgyblion yn dangos eu gallu gyda sgiliau meddwl, rhifedd, cyfathrebu a TGCh.

Mae ffocws yr ysgol gyfan ar yr Wythnos Arian / Mathemateg wedi ysgogi'r ysgol i ymuno ag Undeb Credyd Lleol i sefydlu banc ysgol. Gyda chefnogaeth un o swyddogion yr Undeb Credyd, mae disgyblion yn gyfrifol am gyfrif a chofnodi arian. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd pellach i ddefnyddio a datblygu sgiliau Mathemateg mewn cyd-destun ymarferol.

Ymwybyddiaeth o rôl UAAC

2.12 Bu'r adolygiad hwn yn ceisio barn athrawon a phenaethiaid ysgolion sydd wedi derbyn amrywiol fathau (modelau) o gymorth gan gynghorwyr UAAC. O'r herwydd, nid syndod oedd gweld lefelau ymwybyddiaeth da o rôl yr Uned a'i swyddogaethau ymysg y bobl a gafodd eu cyfweld. Mae UAAC wedi cynnig cymorth ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru ac mae'r cymorth a gynigiwyd yn y sector uwchradd wedi bod yn arbennig o gryf. Mae data monitro a

ddarparwyd gan UAAC yn dangos bod 209 o'r 222 ysgol uwchradd yng Nghymru wedi derbyn cymorth drwy gyfrwng un o'r tri model cymorth a ddefnyddiwyd. Daeth cynghorydd cynradd UAAC ar secondiad i'r Uned yn ystod mis Medi 2009, sef blwyddyn yn ddiweddarach na'r cynghorydd uwchradd (gan adeiladu ar ffyrdd o weithio a oedd eisoes wedi'u datblygu). Mewn cyfnod byrrach o lawer, mae 214 allan o 1436 ysgol gynradd wedi derbyn hyfforddiant neu fath arall o gymorth. Mae 20 allan o 43 o ysgolion arbennig hefyd wedi cael cymorth drwy gyfrwng digwyddiadau CPD, ymweliadau ysgol neu fewnbwn mewn cyfarfodydd cydgysylltwyr. Mae bylchau o hyd ac nid yw rhai ysgolion wedi elwa o gwbl ar gymorth hyd yma ond nid yw hyn yn syndod o edrych ar gapasiti cyfyngedig yr Uned. Fodd bynnag, mae 'cyrhaeddiad' yr Uned wedi bod yn eang, gan gyfrannu at ymwybyddiaeth o'i gwaith a'i gwasanaethau ymysg ymarferwyr ym mhob rhan o Gymru. Nid yw'r adolygiad hwn wedi edrych ar lefelau ymwybyddiaeth o rôl UAAC yn ehangach ymysg athrawon a phenaethiaid nad ydynt wedi cael cyswllt uniongyrchol gyda'r Uned eto.

- 2.13 Mae ysgolion yn meddwl bod UAAC yn ffynhonnell gyngor arbenigol, gan ddarparu hyfforddiant i ymarferwyr i'w galluogi i gael mynediad at yr adnoddau mwyaf addas er mwyn hyrwyddo addysg ariannol ar draws pob cyfnod allweddol. Mae cynghorwyr Awdurdodau Lleol yn deall rôl UAAC a'i gwasanaethau ac yn gweld gwerth sylweddol i'r cymorth a ddarparwyd.

"Mae UAAC yn defnyddio ei harbenigedd yn effeithiol – mae'n galluogi athrawon i fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ym maes addysg ariannol a dod o hyd i ffyrdd i integreiddio'r rhain i'r cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys helpu ysgolion i wneud cysylltiadau rhwng pynciau er mwyn iddynt allu datblygu ffyrdd o weithio ar draws y cwricwlwm." (Cynghorydd Awdurdod Lleol)

- 2.14 Yn ddiddorol ddigon, mae rhai cynghorwyr Awdurdodau Lleol yn ystyried mai rôl UAAC yw eu cefnogi yn ogystal â darparu cymorth uniongyrchol i ysgolion. Mae cynghorwyr yn cydnabod bod UAAC yn rhoi iddynt wybodaeth y byddant yn ei rhaeadru i athrawon ac ysgolion, gan gynnwys y rheiny nad ydynt wedi mynychu hyfforddiant CPD UAAC. Mae rhai cynghorwyr yn teimlo bod cymorth

UAAC yn bwysicach fyth gan nad yw addysg ariannol yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ABCh eto⁹.

2.15 Mae sylwadau cynghorwyr hefyd yn dangos bod ymwybyddiaeth dda ar y cyfan o waith yr Uned ledled Cymru. Er bod mwy o gymorth wedi'i gynnig ar draws y sector uwchradd (gan fod y cynghorydd ysgolion uwchradd wedi bod yn ei swydd am fwy o amser), mae cynghorwyr UAAC wedi meithrin cysylltiadau ym mhob Awdurdod Lleol a chyda phob consortia addysg. Mae cynghorwyr Awdurdodau Lleol a staff UAAC oll yn sôn bod y galw am hyfforddiant a chymorth yn parhau'n gryf ledled Cymru.

Sylwadau i Gloi

2.16 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd gerbron tîm yr adolygiad hwn, mae UAAC wedi sefydlu enw da iddi'i hun ac mae ysgolion yn ymddiried yn yr Uned. Ystyrir ei bod yn cynnig arbenigedd y mae ymarferwyr a chynghorwyr Awdurdodau Lleol fel ei gilydd yn ei werthfawrogi. Dylid nodi hefyd bod hyn wedi digwydd mewn cyfnod byr iawn o amser, yn enwedig o ystyried mai dim ond ers rhyw 18 mis y mae'r Uned wedi bod yn gweithio gyda chapasiti llawn.

2.17 Mae addysg ariannol yn bwnc trafod cynyddol uchel ei broffil. Mae adroddiad '*Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol*'¹⁰ a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Bwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ynghyd ag ymateb cadarnhaol y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Chymunedau, yn ategu ymhellach pa mor bwysig yw'r mater hwn yng Nghymru.

2.18 Mae ymwybyddiaeth o'r maes (ac o UAAC) yn un peth ond mae symud ymlaen wedyn i weld gwell addysg ariannol yn cael ei chynnig fel rhan amlwg ac

⁹ Mae ABCh yn rhan statudol o'r cwricwlwm ar gyfer pob disgybl 7-16 oed mewn ysgolion a gynhelir ac mae'r deilliannau dysgu ar faterion ariannol eisoes yn cael eu trafod ar gyfer pob cyfnod allweddol yn y fframwaith ABCh. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith ei hun yn statudol. Mae tîm yr adolygiad hefyd yn sôn bod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi derbyn, mewn egwyddor, argymhelliad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant, y dylai addysg ariannol fod yn "*elfen orfodol o'r fframwaith ABCh*".

¹⁰ Adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol* (Tachwedd 2010)

integredig o gwricwlwm ysgolion yn fater cwbl wahanol, a gellir dadlau, y bydd hyn yn fwy heriol. Bydd penodau canlynol yr adroddiad yn edrych ar gynnydd ac ar y rhwystrau sy'n ymwneud â'r materion hyn.

3 Gwasanaethau UAAC: barn athrawon a chynghorwyr Awdurdodau Lleol

- 3.1 Roedd y cerrig milltir a nodwyd yng nghynllun strategol UAAC yn cynnwys (ar gyfer 2009-10) *'datblygu rhaglen dreigl o gymorth ar gyfer ysgolion'* ac (ar gyfer 2010-11) *'gweithredu o fis Ebrill 2010 y flwyddyn gyntaf lawn o'r rhaglen gymorth'*. Mae'r adran hon yn ystyried barn ymarferwyr am y cymorth a ddarparwyd. Mae'n dechrau drwy grynhoi rhai o'r sylwadau cyffredinol a wnaed cyn edrych ar faterion penodol sy'n ymwneud â'r amrywiol fodelau cymorth a gynigir gan UAAC.

Cyffredinol

- 3.2 Roedd y bobl a fu'n cyfrannu at yr adroddiad hwn yn gadarnhaol am y gwasanaethau. Yn aml, bu athrawon yn disgrifio'r cymorth a gynigiwyd i ysgolion fel cymorth *'effeithiol'*, *'addysgiadol'* a *'phleserus'*. Yn benodol, roedd athrawon yn croesawu'r ffordd y cynigiwyd yr hyfforddiant:

"Mae'r cymorth yn eich ysbrydoli i feddwl yn greadigol am sut i ymgorffori addysg ariannol yn y cwricwlwm." (Athro, ysgol gynradd)

- 3.3 Roedd sylwadau un athro yn adlewyrchu barn nifer wrth iddi sôn ei bod yn gwerthfawrogi bod *"yr hyfforddiant yn trafod amrywiol agweddau cymdeithasol ac athronyddol eang addysg ariannol yn ogystal ag elfennau seiliedig ar rifedd. Roedd yr hyfforddiant yn agoriad llygad go iawn."*

- 3.4 Yn ystod ymweliadau ag ysgolion, bu tîm yr adolygiad yn gweld bod negeseuon am berthnasedd eang llythrennedd ariannol wedi'u cydnabod a'u deall. Roedd un ysgol gynradd yr ymwelwyd â hi yn gwneud cysylltiadau da rhwng addysg ariannol a'r agenda gymdeithasol ehangach, gan gyflwyno ystod eang o bynciau yn ystod wythnos â thema sef *'wythnos cynilion'* gan gynnwys undebau credyd, cyfraddau llog, swyddi ac ymarferion cyllidebu.

Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Llanedeyrn

Mae'r astudiaeth achos hon yn ceisio dangos sut y mae hyfforddiant

UAAC yn galluogi athrawon i ddeall a gwireddu perthnasedd ehangach addysg ariannol a sut y gellir ei chynnwys yn gymharol hawdd fel rhan o ffocws eu cynlluniau gwersi cyfredol. Mae hefyd yn enghraifft o sut y mae'r hyfforddiant yn galluogi ysgolion i gysylltu addysg ariannol â nifer o'r gweithgareddau y mae eisoes yn eu cefnogi.

Yn ddiweddar, mynychodd athro o'r ysgol gynradd hon yn Ne Cymru y sesiwn hyfforddi deuddydd a rennir. Fe alluogodd yr hyfforddiant yr athro i ddeall sut y gellid defnyddio addysg ariannol yn ehangach mewn gwersi Mathemateg yn ogystal ag mewn rhannau eraill o'r cwricwlwm. Er enghraifft, cyn yr hyfforddiant, dim ond mewn gwersi Mathemateg yr oedd addysg ariannol yn cael ei chynnwys, gan ddefnyddio arian fel enghraifft wrth wneud symiau adio a thynnu sylfaenol. Bellach, mae'r athro yn cyfeirio at gynilion a chyfraddau llog fel ffocws wrth gyfrifo canrannau, symiau lluosï a rhannu.

Mae addysg ariannol yn weithgaredd sydd hefyd yn dod yn fwy amlwg yn yr ysgol yn gyffredinol.

- Mae cynghorau ysgol yn trafod cyllidebau yn eu cyfarfodydd.
- Mae plant yn helpu i gynnal siop fach yr ysgol gan ddysgu am ddefnyddio arian a'r angen i brynu nwyddau ac ati.
- Mae pwyllgor Eco y disgyblion yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd gan gynnwys sut i arbed arian ac ati.
- Gweithgareddau masnach deg.
- Defnyddio arian mewn gwersi Mathemateg.

Ni ellir priodoli'r holl weithgareddau hyn yn uniongyrchol i hyfforddiant UAAC – ond mae'r hyfforddiant wedi helpu i amlinellu pa agweddau o'r gweithgareddau hyn sy'n gysylltiedig ag addysg ariannol. Mae'r athro wrthi'n edrych ar ffyrdd posibl o gysylltu addysg ariannol â gwersi ABCh a Daearyddiaeth yn ogystal â themâu megis wythnosau / digwyddiadau mentergarwch a phrosiectau eco. Mae paratoi cyllidebau ac arbed arian yn rhan o brosiectau mentergarwch a phrosiectau eco ac felly ceir cyfle i ymgorffori rhai o'r adnoddau a amlinellwyd yn yr hyfforddiant yn rhan o'r gweithgareddau ysgol gyfan hyn.

3.5 Roedd cynghorwyr Awdurdodau Lleol ac aelodau o uwch dimau rheoli ysgolion hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y cymorth a gynigir gan UAAC yn rhad ac am ddim i ysgolion. Er enghraifft, mae hyn yn golygu y caiff costau athrawon llanw eu talu pan fydd athrawon yn mynychu'r hyfforddiant CPD. Fel rheol, mae'r costau hyfforddiant a gynigir mewn partneriaeth rhwng UAAC a'r

Awdurdod Lleol yn cael eu rhannu gyda'r Awdurdod Lleol yn cynnig y lleoliad. Ystyriwyd bod hyn yn hanfodol wrth adael i aelodau o staff fynychu hyfforddiant yn wyneb y sefyllfa ariannol sydd ohoni a'r pwysau a roddir ar ysgolion yn sgil hyn.

Tystiolaeth yn ymwneud â modelau darparu penodol

Model 1: dylunio a darparu datblygiad proffesiynol parhaus (CPD)

3.6 Mae'r model cymorth hwn yn ceisio rhoi i i athrawon y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i allu gwella'r modd y darperir addysg ariannol yn eu hysgolion. Bu llawer o waith ac ymdrech ynghlwm wrth ddylunio, cynllunio a darparu'r hyfforddiant ar gyfer athrawon ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig. Dylid cymeradwyo cynghorwyr UAAC am eu gwaith wrth ddarparu cymorth arbenigol i gannoedd o athrawon o bob un o 22 Awdurdod Lleol Cymru. Mae'r rhaglen digwyddiadau CPD wedi bod yn arbennig o boblogaidd ac mae'r ymwneud uniongyrchol hwn â'r rheiny sy'n gyfrifol am ddarparu addysg ariannol yn yr ystafell ddosbarth wedi bod yn gonglfaen i'r cymorth a gynigir gan yr Uned.

3.7 Soniodd un cynghorydd Awdurdod Lleol bod yr hyfforddiant yn golygu y ceir pecyn cymorth cydlynol ac integredig ar gyfer ysgolion mewn perthynas ag addysg ariannol, gyda chymorth ymarferol i gefnogi'r 'Canllawiau i Ymarferwyr'¹¹ a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ddiwedd 2010.

"Mae UAAC yn adnodd sy'n ein helpu i roi canllawiau'r Cynulliad [ar addysg ariannol] ar waith – mae hyn yn unigryw gan ei fod yn golygu bod y pecyn cyfan ar waith, o ran darparu adnoddau a hyfforddiant. Mae cynghorwyr UAAC yn ei gwneud hi'n gwbl glir beth yw beth a sut i roi popeth ar waith yn yr ystafell ddosbarth." (Cynghorydd Mathemateg Awdurdod Lleol)

¹¹ Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2010) *Addysg Ariannol i Ddysgwyr 7-19 oed yng Nghymru. Canllawiau i ysgolion a cholegau.*

- 3.8 Bu rhai athrawon yn sôn bod hyfforddiant CPD UAAC yn ffafriol iawn o'i gymharu â hyfforddiant (gan gynnwys cyrsiau sy'n canolbwyntio ar addysg ariannol) a gynigir gan sefydliadau eraill.

Astudiaeth achos: Ysgol Uwchradd Tredelerch

Mae'r astudiaeth achos hon yn enghraifft o sut y mae'r hyfforddiant a gynigir gan UAAC wedi galluogi ysgol uwchradd a oedd eisoes yn ymgorffori addysg ariannol i wersi ABCh, i sylweddoli beth yw'r cyd-destun ehangach y gellid ymgorffori addysg ariannol ynddo a hynny mewn gwersi ABCh ac ar draws meysydd pwnc eraill. Fodd bynnag, mae hefyd yn dangos rhai o'r rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu athrawon unigol wrth iddynt geisio annog meysydd pwnc eraill yn yr ysgol i ymgorffori addysg ariannol yn eu cynlluniau gwersi.

Mynychodd y cydgysylltydd ABCh ac un o athrawon Mathemateg yr ysgol uwchradd hon yn Ne Cymru y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd gan UAAC yn 2010. Roedd yr athrawes ABCh hefyd eisoes wedi mynychu cwrs Grŵp Addysg Ariannol Bersonol (PFEG) ar reoli ariannol yn 2008 ac o ganlyniad, roedd hi eisoes wedi dechrau cyflwno addysg ariannol i'r cwricwlwm ABCh. Fodd bynnag, yn dilyn sesiwn hyfforddi UAAC, roedd yr athrawes ABCh bellach yn teimlo y gallai ganolbwyntio a datblygu addysg ariannol fel rhan o'r cwricwlwm ABCh i raddau mwy helaeth o lawer.

Bu'r athrawes yn esbonio mai hi oedd yn gorfod chwilio am adnoddau addysg ariannol ei hun cyn mynychu cwrs hyfforddi UAAC. *"Pe byddai UAAC wedi bod yno ar y dechrau, yna fyddwn i ddim wedi gorfod bod wrthi gymaint yn chwilio ym mhob man dan haul".*

Bellach, o ganlyniad i hyfforddiant UAAC, gall yr athrawes gael mynediad at adnoddau addysg ariannol mwy diweddar a pherthnasol. Mae'r hyfforddiant hefyd wedi ei galluogi i ddod o hyd i gyfleoedd pellach i gynnwys addysg ariannol yn y cwricwlwm ABCh.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cynnig y rhaglen addysg ariannol ganlynol:

- **Blwyddyn 8** – 5 bloc o wersi ar dreth, pensiynau a chynilion
- **Blwyddyn 9** – defnyddio'r gêm fasnachu gan edrych ar feysydd megis bancio, prynu adnoddau a gwerthu nwyddau (mentergarwch a chyllidebu)
- **Blwyddyn 10** – dim addysg ariannol benodol ond bydd disgyblion yn logio eu gwariant a'u costau yn ystod eu lleoliadau profiad gwaith ac ati
- **Blwyddyn 11** – wrthi'n trefnu uned addysg ariannol ar gyfer pobl sy'n

gadael Blwyddyn 11. Bydd hyn yn cynnwys sgysiau ar Lwfans Cynhaliaeth Addysg, bancio a sefydlu cyfrifon, cyllidebu yn ogystal ag ymgorffori sesiwn gan Safonau Masnach. Ymdrech ar y cyd fydd hyn rhwng yr Adran Fathemateg ac ABCh.

Mae'r athro ABCh hefyd wedi cynnal archwiliad o'r meysydd pwnc eraill i weld sut y mae addysg ariannol yn cael ei chyflwyno ar draws yr ysgol. Mae'r archwiliad wedi dangos bod agweddau o faes addysg ariannol yn cael eu cyflwyno i raddau mewn gwersi Hanes, Daearyddiaeth a Dylunio a Thechnoleg (e.e. mae'r disgyblion yn rhan o'r gwaith o brisio a phrynu deunyddiau), lle mae athrawon unigol wedi bod yn dangos blaengaredd ar eu liwt eu hunain. Fodd bynnag, ar y cyfan, canfu'r archwiliad mai cyfyngedig yw'r gwaith a wneir o ran addysg ariannol ar draws y meysydd pwnc yn yr ysgol.

Hoffai'r athrawon hyn weld addysg ariannol yn cael lle amlycach yn eu hysgolion "*All hyn ddim stopio gyda gyrfaoedd ac ABCh*"; mae'r adran Fathemateg bellach wedi ymroi i'r achos ond mewn gwirionedd, mae gofyn gwneud hyn ar draws yr ysgol gyfan. Fodd bynnag, maent yn teimlo nad ydynt wedi cael cyfle i raeadru'r wybodaeth yn iawn eto ac roeddent yn gweld hyn yn broblem oherwydd pwysau'r amserlen a phethau eraill sy'n cystadlu am amser.

3.9 Roedd cydgysylltwyr ac athrawon yn meddwl bod yr hyfforddiant yn effeithiol o ran cyfeirio at yr adnoddau sydd ar gael a gwefannau defnyddiol gan roi dewis da o ddeunyddiau i athrawon weithio gyda nhw. Roedd yr athrawon yn gwerthfawrogi'r profiad ymarferol a gawsant o ddefnyddio'r adnoddau yn ystod y diwrnod hyfforddi ac roedd hyn yn cynnwys '*cyngor defnyddiol ar sut i ddefnyddio a chyflwyno'r deunydd*' (Athro ABCh uwchradd). Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol hefyd wrth ddangos sut y gellir ymgorffori addysg ariannol ar draws gwahanol feysydd y cwricwlwm.

3.10 Fe soniodd athrawon Mathemateg eu bod hefyd yn gwerthfawrogi'r adnoddau a gyflwynwyd yn ystod yr hyfforddiant a'r ffaith bod yr hyfforddiant mor gyson â'r cwricwlwm sy'n newid, yn enwedig y pwyslais ar ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm.

'Mae Mathemateg bellach yn canolbwyntio mwy ar sgiliau ac mae Mathemateg ariannol yn gweithio'n dda gyda hyn. Rydyn ni wedi gweld

ei fod wedi rhoi mwy o syniadau i ni ar gyfer addysgu CA4 yn gyffredinol' (Athro Mathemateg uwchradd).

- 3.11 Roedd strwythur yr hyfforddiant yn destun trafod diddorol yn ystod yr adolygiad. Fel rheol, roedd yr hyfforddiant a gynigiwyd i'r sector uwchradd yn cael ei gynnig ar ffurf diwrnod cyfan. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a gynigir gan y cynghorydd cynradd sydd wedi trefnu sesiynau hyfforddi wedi'u rhannu dros ddeuddydd. Fel rheol, ceir bwlch o 2-4 wythnos rhwng y diwrnod cyntaf a'r ail. Mae gweithio fel hyn yn golygu cyflwyno adnoddau a gwybodaeth i ymarferwyr yn ystod y seiswn gyntaf. Yna, yn ystod yr ail seiswn, bydd yr athrawon yn rhoi cyflwyniadau ar sut y maent wedi cynnig addysg ariannol yn eu dosbarthiadau ers y sesiwn hyfforddi gyntaf.
- 3.12 Ystyriwyd bod dewis cynghorydd cynradd UAAC i 'rannu hyfforddiant' fel hyn yn arbennig o effeithiol gan ei fod yn gofyn i athrawon roi cynnig ar yr hyn a ddysgwyd cyn mynd ati i rannu eu profiadau mewn amgylchedd grŵp. Mae hyn yn golygu 'dysgu gweithredol' sy'n dwyn nifer o fanteision. I ddechrau, ceir y gwerth ychwanegol i'r rheiny sy'n bresennol o weld 12-15 o enghreifftiau go iawn o sut y gellir cynnig addysg ariannol mewn gwahanol gyd-destunau. Mynychodd aelodau tîm yr adolygiad yr ail ddiwrnod o hyfforddiant mewn un Awdurdod Lleol ac roedd yr athrawon yn llawn brwdfrydedd o weld '*set gyfan o syniadau newydd*'.
- 3.13 Yn ail, roedd y cyflwyniadau a baratowyd gan y staff eu hunain yn adnoddau ychwanegol defnyddiol y gellid eu rhannu gydag ysgolion ac awdurdodau eraill. Mae'r cyflwyniadau hyn yn crynhoi'r gwaith a wnaed (mewn ystod o wahanol feysydd pwnc gan gynnwys Hanes, Daearyddiaeth a Saesneg yn ogystal â Mathemateg) ac yn cynnig astudiaethau achos ar sut y gall amrywiol adnoddau gydweithio a chyfoethogi'r modd y darperir y cwricwlwm. Fel rhan o'r cyflwyniadau hyn, mae rhai athrawon wedi dechrau teilwra cynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith sy'n ymgorffori addysg ariannol i wersi Mathemateg ac ABCh (enghreifftiau ar gael yn [Atodiad 2](#)). Ystyrir bod y ffordd hon o weithio yn rhan angenrheidiol o'r gwaith o wneud yn siŵr bod addysg ariannol yn rhan ganolog o'r cwricwlwm. Yn wir, cynigiwyd y dylai'r hyfforddiant hwn yn y dyfodol

gynnwys ymagwedd fwy cyfeiriol / gorchmynol' a strwythuredig o ran cefnogi'r gwaith o gynllunio gwersi.

- 3.14 Yn drydydd, mae llawer i'w ddysgu drwy weithio fel hyn o bersbectif cynghorydd UAAC: mae gweld sut y mae athrawon yn dehongli'r hyfforddiant ac yn ei gymhwyso yn y dosbarth yn rhoi i'r cynghorydd UAAC "*well mewnlwg i beth y mae athrawon yn ei hoffi*", sydd yn ei dro yn gallu helpu i lywio'r modd y caiff cyrsiau CPD eu cynllunio a'u rhoi ar waith yn y dyfodol.
- 3.15 Er nad oedd yr hyfforddiant uwchradd yn dilyn y patrwm hwn fel rheol, nodwyd serch hynny bod athrawon yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a gynigir gan y diwrnod i athrawon roi eu mewnbwn; ystyriwyd bod hyn yn annog pobl i gyfnewid syniadau a safbwyntiau ar sut y gellid cymhwyso addysg ariannol yn yr ystafell dosbarth.
- 3.16 Roedd y rheiny a gafodd eu cyfweld yn sôn yn bur aml am ba mor ddefnyddiol oedd yr adnoddau a gyflwynwyd yn ystod y cyrsiau hyfforddi. Soniodd athrawon a chynghorwyr eu bod yn berthnasol ac o safon uchel. Teimlir bod amrywiaeth yr adnoddau a'r pwyntiau cyfeirio yn dda, ac fe gaiff y rhain eu teilwra ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.

Model 2: cyngor ac arweiniad drwy gyfrwng ystod o allbynnau i wahanol grwpiau: gan gynnwys cyfarfodydd cydgysylltwyr ABCh a Mathemateg yr Awdurdodau Lleol, mewnbynnau byrrach drwy gyfrwng cyfarfodydd penaeithiaid a digwyddiadau eraill wedi'u targedu at arbenigwyr pwnc.

- 3.17 Mae'r cymorth a gynigir gan UAAC o dan y model hwn yn digwydd mewn amrywiol ffyrdd ac yn cynnwys darparu gwahanol lefelau o fewnbwn i gyfarfodydd a drefnir gan gynghorwyr yr Awdurdodau Lleol a rhwydweithiau eraill. Mewn rhai achosion, gall hyn fod cyn lleied â 40 munud, mewn achosion eraill gall fod yn sesiynau hanner diwrnod. Fel rheol, darperir mewnbynnau mwy o faint yng nghyfarfodydd cydgysylltwyr Mathemateg ac ABCh a drefnir gan Awdurdodau Lleol, lle caiff amser ei neilltuo i drafod addysg ariannol. Mae cynghorwyr UAAC hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio mewnbwn i ystod o

rwydweithiau a fforymau eraill. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys cyfarfodydd penaethiaid ar draws yr Awdurdod Lleol; digwyddiadau Wythnos Gyrfaedd; a diwrnod hyfforddi a drefnwyd gan CBAC.

3.18 Mae presenoldeb UAAC yn y cyfarfodydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol ar sawl lefel. Dyma rai enghreifftiau:

- Taro UAAC (ac addysg ariannol) ar y map (codi ymwybyddiaeth, rhwydweithio);
- Rhannu gwybodaeth â chynghorwyr, ymarferwyr a chydgysylltwyr Mathemateg / ABCh am ddatblygiadau ym maes addysg ariannol (darparu cyngor, hyfforddiant a mentora);
- Cyfeirio at adnoddau a deunyddiau (darparu gwybodaeth);
- Rhoi gwybod i ymarferwyr am y modelau cymorth eraill sydd ar gael drwy farchnata a hyrwyddo gwasanaethau UAAC (cyfeirio);
- Darparu mewnlwg i gyfleoedd, mentrau a strwythurau lleol i gynghorwyr UAAC er mwyn hyrwyddo addysg ariannol ymhellach (casglu gwybodaeth).

3.19 Felly, gwelir bod manteision amlwg i bresenoldeb UAAC yng nghyfarfodydd y cydgysylltwyr Mathemateg ac ABCh a gynhelir gan yr Awdurdodau Lleol. Mae llawer o'r ymweliadau ag ysgolion ar y safle (Model 4) a gynhaliwyd gan UAAC wedi digwydd ar ôl cyswllt cychwynnol gyda chydgysylltwyr Mathemateg / ABCh yn ystod y cyfarfodydd hyn. Maent hefyd yn gwneud yn siŵr bod cysylltiadau da yn cael eu cynnal rhwng cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol a staff UAAC.

3.20 Fodd bynnag, yn ystod y cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda chynghorwyr yr Awdurdodau Lleol, prin oedd y pwyslais a roddwyd ar y model cymorth hwn. Lle'r oedd y model yn cael ei grybwyll, roedd cynghorwyr yn ddiolchgar i UAAC am fynychu ac am ddarparu mewnbwn arbenigol i eitem arbennig ar yr agenda.

3.21 Nid yw'n amlwg i ba raddau y mae'r model hwn – sy'n ymwneud yn bennaf â chodi ymwybyddiaeth a chyfeirio – yn effeithio ar arferion a'r modd y darperir addysg ariannol yn yr ystafell ddosbarth nac yn wir ar p'un a all wneud hynny o

gwbl. Mae'n dibynnu ar y cydgysylltwyr Mathemateg / ABCh sy'n bresennol i drosglwyddo gwybodaeth i gydweithwyr eraill yn yr ysgol. Hyd yn oed wedyn, fe awgrymodd un cynghorydd bod yr wybodaeth sy'n debygol o gael ei throsglwyddo yn gymharol gyfyngedig.

- 3.22 Gellir dadlau bod yr elfen sy'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth yn fwy pwysig pan sefydlwyd UAAC i ddechrau. Soniodd nifer o'r bobl a gafodd eu cyfwrdd, er bod UAAC yn parhau i fod yn wasanaeth cymorth 'ifanc', dylid disgwyl i gynghorwyr Awdurdodau Lleol bellach fod â dealltwriaeth glir o rôl a chylch gwaith UAAC a dylent allu cyfathrebu hyn i'r ymarferwyr eu hunain, pe byddai angen. Yn yr un modd, mae'r ffaith fod gwefan UAAC¹² bellach yn fyw a bod modd ei diweddarau gyda'r adnoddau diweddaraf yn golygu bod ffyrdd eraill i ymarferwyr sydd â diddordeb gael mynediad at wybodaeth am y datblygiadau diweddaraf.

Model 4: cyngor ac ymgynghoriaeth ad hoc ar y safle i ysgolion unigol

- 3.23 Mae UAAC yn darparu cymorth ar y safle i ysgolion gan ymateb i geisiadau penodol am gymorth neu wybodaeth. Caiff y geisiadau hyn eu gwneud mewn sawl gwahanol ffordd: er enghraifft gan benaethiaid adrannau Mathemateg / ABCh yn dilyn cyfarfodydd cydgysylltwyr yr Awdurdodau Lleol, drwy gyfrwng cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol neu geisiadau gan ysgolion lle'r oedd aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant CPD yn barod. Mae pob ysgol sydd wedi gofyn am gymorth unigol gan gynghorwyr UAAC wedi cael ymweliad. Mae hyd yr ymweliadau'n amrywio, ac felly hefyd y 'gynulleidfa'. Mewn rhai achosion, mae cynghorwyr UAAC yn gweithio gyda grŵp bach o athrawon mewn un maes pwnc (e.e. ABCh mewn ysgol uwchradd). Mewn achosion eraill, mae UAAC yn gweithio gydag uwch dîm rheoli ysgol a chyda grwpiau staff (trawsadrannol) mwy o faint.

- 3.24 Bu rhai cynghorywr a rhai ysgolion yn sôn am hyblygrwydd ffordd UAAC o weithio gydag ysgolion unigol. Ystyrir bod staff yr Uned yn hygyrch iawn ac yn

¹² Dolen at wefan UAAC: <http://financial-education.ngfl-cymru.org.uk/cym/f-ed-home.htm>

barod i gefnogi ysgolion lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Bu'r ysgolion yr ymwelodd tîm yr adolygiad hwn â nhw a oedd wedi derbyn hyfforddiant ar y safle yn esbonio ei bod hi wedi bod yn broses arbennig o ddefnyddiol a'i bod wedi galluogi mwy o athrawon i gymryd rhan ac elwa ar yr wybodaeth a gafodd ei chyflwyno.

- 3.25 Soniodd un cynghorydd Awdurdod Lleol bod y model hwn yn cynnig cyfle pwysig i wneud yn siŵr bod penaethiaid ac uwch aelodau o staff yn dod i gefnogi'r syniad ac yn ymrwymo iddo. *“Os yw newidiadau am gael eu gwneud, yna bydd gofyn i chi gael y pennaeth i gymryd rhan ac i arwain. Os bydd ef neu hi yn gweld perthnasedd addysg ariannol i'r ysgol, dyna hanner y frwydr wedi'i hennill.”* (Cynghorydd Mathemateg Awdurdod Lleol)

Astudiaeth achos: Ysgol John Bright

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos yr effaith a gaiff UAAC drwy gynnig hyfforddiant mewnol i ysgol uwchradd yng Ngogledd Cymru. Mae'n amlinellu sut y mae'r model darparu hwn wedi galluogi i hyfforddiant a chymorth yr Uned gyrraedd staff dysgu ar draws sbectrwm pynciau ehangach na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae'r astudiaeth achos hefyd yn edrych ar y galw a'r awydd am addysg ariannol ymysg disgyblion ysgol a'r cyfleoedd felly i ehangu ffocws addysg ariannol ar draws yr ysgol. Fodd bynnag, mae hefyd yn amlinellu'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu'r ysgol o ran llwyddo i gael y ffocws ehangach hwn.

I ddechrau, ymwelodd UAAC â'r ysgol fis Mehefin 2010 i roi cyflwyniad awr o hyd i'r adran Fathemateg. Yna, cynhaliwyd dwy sesiwn hwyrnos bellach i aelodau o staff addysgu'r ysgol. Ymweliad dwy awr oedd y cyntaf fis Hydref 2010 i roi cyngor ar adnoddau i'w defnyddio wrth gynnig addysg ariannol mewn gwersi ABCh. Roedd yr ail sesiwn hwyrnos yn fyrrach yn ystod mis Tachwedd 2010 lle bu athrawon gwahanol bynciau yn trafod integreiddio addysg ariannol ar draws y cwricwlwm.

Roedd gallu'r Uned i gynnal yr hyfforddiant yn yr ysgol yn arbennig o bwysig. Ym marn yr ysgol, ni fyddai wedi bod yn bosibl rhyddhau naw athro i fynychu digwyddiad hyfforddi allanol ac ni fyddai ychwaith wedi bod yn bosibl annog athrawon o feysydd pynciau megis leithoedd Tramor Modern (ITM) i fynychu digwyddiadau hyfforddi a oedd yn canolbwyntio ar y maes hwn pe na byddai'r hyfforddiant wedi'i gynnig yn yr ysgol y tu allan i oriau addysgu.

Cyn yr hyfforddiant, darparwyd addysg ariannol yn yr ysgol mewn un bloc o saith gwers ABCh gyda'r prif nod o dargedu'r disgyblion mwyaf agored i niwed. Ar ôl yr hyfforddiant, mae llythrennedd / addysg ariannol yn parhau i gael eu cynnig yn bennaf drwy gyfrwng gwersi ABCh ond maent yn cael eu targedu at ddisgyblion ym Mlynnyddoedd 9 – 11. Mae addysg ariannol yn cael ei defnyddio'n gynyddol hefyd mewn gwersi Mathemateg

Mae'r ysgol wedi dechrau'r broses gynllunio er mwyn cynnwys addysg ariannol yn y strwythur dysgu cyfan ar draws y cwricwlwm. Er bod athrawon ITM, Saesneg, Cymraeg a Hanes wedi bod yn rhan o'r trafodaethau a'r hyfforddiant hyd yn hyn, mae hi wedi bod yn fwy heriol i'w hannog i gynnwys addysg ariannol yn eu cynlluniau gwersi. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod athrawon sy'n canolbwyntio ar bynciau nad ydynt yn ymwneud â rhifedd yn ei chael hi'n anos gweld perthnasedd cynnwys addysg ariannol yn eu maes pwnc. Yn aml, byddant yn sôn mai diffyg amser yw'r rheswm gan y byddai gofyn iddynt ddod o hyd i'r adnoddau mwyaf perthnasol i'w defnyddio yn eu dosbarthiadau a dod o hyd i ffyrdd o ymgorffori'r adnoddau hyn yn eu cynlluniau gwersi. Mae'r ysgol yn gobeithio y bydd UAAC yn gallu cynnig cymorth pellach wrth adnabod adnoddau penodol sy'n arbennig o berthnasol i amrywiol feysydd pwnc .

Fe ymatebodd disgyblion yr ysgol yn arbennig o dda i weithgareddau grŵp a oedd yn seiliedig ar adnabod cost a datblygu cyllidebau. Ystyriwyd bod rhai o adnoddau PFEG (megis 'Money Sense') a gyflwynwyd gan UAAC i'r ysgol yn gweithio'n dda yn y cyd-destun hwn er bod rhai o'r disgyblion Blwyddyn 9 a 10 yn brin o brofiad bywyd i'w galluogi i uniaethu â'r ymarferion ar y taflenni gwaith.

Ar y llaw arall, mae adborth gan yr athrawon sydd ar y cyngor ysgol yn awgrymu y byddai disgyblion 6^{ed} dosbarth yr ysgol yn croesawu cwrs ar addysg ariannol i'w galluogi i fod â gwell ymwybyddiaeth ariannol cyn mynd i'r coleg neu i'r brifysgol. Ar hyn o bryd, ni chaiff addysg ariannol yn yr ysgol ei thargedu at y 6^{ed} dosbarth, ond fe fydd hyn yn cael ei adolygu yn dilyn yr adborth hwn. Mae hyn hefyd yn amlinellu bod galw am addysg ariannol ymysg disgyblion ysgol.

- 3.26 Cefnogwyd y farn hon gan gynghorywr UAAC eu hunain a fu'n cynnig hyfforddiant ar y safle mewn amrywiol fformatau a chan lwyddo ambell dro ond ddim cystal dro arall. Awgrymwyd ei bod hi weithiau'n haws trefnu cyfarfodydd gydag uwch dimau rheoli yn y sector cynradd. Pan oedd hyn yn bosibl, roedd yr effaith a'r ymatebion yn arbennig o frwd yn aml iawn fel y dengys yr adborth canlynol a ddaeth i law UAAC gan un dirprwy bennaeth ysgol gynradd:

“Roeddwn i eisiau cael diolch i chi am eich ymweliad ddydd Llun. Fe gawson ni gymaint o syniadau gwyh gennyh chi ar sut i gynnig addysg ariannol yn ogystal â chynghor ar ddarparu hyfforddiant yn y swydd i’n staff. Bydd y cyfoeth o adnoddau a gwefannau yr ydych chi wedi’u dangos i ni yn rhoi dechrau campus i ni wrth integreiddio hyn yn ein cwricwlwm”. (Dirprwy bennaeth ysgol gynradd)

- 3.27 Clywodd yr adolygiad am enghreifftiau eraill lle cafodd cymorth uwchradd wedi’i deilwra’n arbennig ei ddarparu gan UAAC. Bu un cydgysylltydd ABCh uwchradd yn disgrifio sut y bu i UAAC helpu i gynllunio uned sgiliau gwaith a oedd yn ymgorffori addysg ariannol fel rhan o’r cwricwlwm ABCh.
- 3.28 Mae’n debyg mai’r model cymorth hwn – lle bydd yn gweithio’n effeithiol – yw’r agosaf at nod craidd Uned Addysg Ariannol Cymru, sef cefnogi ymarferwyr er mwyn iddynt allu darparu rhaglen addysg ariannol sydd wedi’i chynllunio a’i chydgysylltu i helpu dysgwyr i wneud dewisiadau ariannol gwybodus. Gall gweithio gydag ysgolion unigol i ddatblygu ffordd o weithio sydd wedi’i strwythuro a’i chynllunio arwain at addysg ariannol yn dod yn rhan integredig o’r cwricwlwm, ar draws ystod o feysydd pwnc a chyfnodau allweddol.
- 3.29 Fodd bynnag, nid yw’n ymarferol nac yn ddichonadwy i dîm o ddau (fel y mae’r Uned ar hyn o bryd) gynnig cymorth o’r fath i bob ysgol yng Nghymru. Felly, mae angen fframwaith neu sail resymegol glir er mwyn dewis pa ysgolion ddylai elwa ar y cymorth hwn. At hynny, dylid cyflwyno system i wneud yn siŵr y gellir rhannu’r dysgu sy’n deillio o gymorth mor ddwys yn effeithiol gydag ysgolion eraill ar lefel leol a chenedlaethol.

Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Brynmill

Mae profiad yr ysgol gynradd hon yng Ngorllewin Cymru yn dangos sut y mae’r hyfforddiant a gynigir gan UAAC yn galluogi athrawon i wireddu’r cyd-destun ehangach lle gellir cymhwyso addysg ariannol – hyd yn oed os ydynt eisoes yn cynnwys addysg ariannol yn rhai o’u cynlluniau gwersi. Hefyd, mae’n dangos yr effaith a gaiff un athro sy’n mynychu’r cwrs ar gyflwyno addysg ariannol ar draws y cwricwlwm pan gaiff yr wybodaeth

sy'n deillio o'r hyfforddiant ei rhannu gyda'r holl staff addysgu. Hefyd, mae'n dangos pwysigrwydd ysgogi brwdfrydedd a chefnogaeth uwch reolwyr yr ysgol.

Mynychodd athro o'r ysgol gynradd hon ddigwyddiad hyfforddi 2 ddiwrnod hydref diwethaf. Cyn mynychu'r cwrs, roedd addysg ariannol yn rhan o wersi Mathemateg ond gan ganolbwyntio ar ddelio ag arian yn unig. Fodd bynnag, ar ôl mynychu'r cwrs hyfforddi, roedd gan yr athro set newydd gyfan o syniadau ar sut i ymgorffori addysg ariannol yn ei gwersi yn ogystal ag ar draws y cwricwlwm ysgol cyfan.

"Doedd gen i ddim syniad bod gymaint mwy yn ymwneud ag addysg ariannol – roedd y cwrs yn agoriad llygad i'r holl bethau eraill y gallwn i fod yn eu gwneud, a hynny heb fawr ddim trafferth."

Mae'r athro wedi rhannu'r hyn a ddysgodd diolch i'r hyfforddiant gyda chydweithwyr drwy gyfrwng cyfarfodydd staff a chan rannu adnoddau electronig. Mae'r pennaeth wedi cefnogi hyn. Ers hynny, mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o ymarferion a gweithgareddau newydd. Er enghraifft, bu'r Wythnos Mathemateg flynyddol yn canolbwyntio ar arian ac fel rhan o hyn, bu'r dosbarth yn trafod cyllidebu ar gyfer y Nadolig gan ddefnyddio taenlenni a chan edrych yn wrthrychol hefyd ar y cynigion arbennig sydd ar gael yn y siopau. Bu'r ysgol hefyd yn cynnal cystadleuaeth cardyn Nadolig a oedd yn golygu datblygu cynllun busnes, cyfrifo'r costau a threfnu i'r cardiau gael eu hargraffu a'u gwerthu. Roedd y dosbarth wedi bod yn astudio'r Ail Ryfel Byd felly fe ddatblygodd yr athro ymarfer a oedd yn cynnwys llyfrau dogni a oedd yn edrych ar hawliau, cyllidebu a fforddiadwyedd.

Bydd yr holl weithgareddau hyn yn cael eu hymgorffori gan gynlluniau gwaith yr ysgol fel bod pob dosbarth yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg. Maent hefyd yn chwilio am fodd o ddatblygu ffyrdd mwy thematig o weithio y gallant eu paru gyda'u themâu Hanes, Daearyddiaeth a Gwyddoniaeth blyneddol.

Cyfeirio at adnoddau a safon yr adnoddau

3.30 Mae cynghorywr ac athrawon yn gwerthfawrogi'r cymorth a gynigir gan UAAC wrth eu cyfeirio at adnoddau sydd ar gael ac at wefannau defnyddiol. Mae athrawon yn gwerthfawrogi'r profiad ymarferol a gânt wrth ddefnyddio'r adnoddau yn ystod yr hyfforddiant CPD, sy'n cynnwys '*cyngor defnyddiol ar sut i gyflwyno deunydd yn yr ystafell ddosbarth*', ys dywed un athro Mathemateg a gafodd ei arsylwi.

*'Mae'r adnoddau'n dda iawn; mae UAAC wedi casglu ac ymchwilio deunyddiau, ac wedi bod yn effeithiol wrth dynnu'r adnoddau gorau ynghyd, sicrhau hawlfraint a chyfeirio athrawon atynt. Mae hyn yn bwysig gan nad oes gan athrawon fawr o amser i wneud hyn eu hunain ond mae UAAC yn gwneud yn siŵr bod popeth ar gael ar blât.
(Cyngorydd ABCh Awdurdod Lleol)*

'Mae'r adnoddau wedi bod yn wych – mae gymaint ar gael, yn amrywio o lyfrau i ddisgiau, ac mae'r athrawon wedi mynd ati i'w haddasu fel eu bod yn gweddu i bob grŵp.' (Athro Mathemateg uwchradd).

4 Awgrymiadau ymarferwyr ar gyfer gwneud gwelliannau

- 4.1 Cafodd y bobl a gafodd eu cyfweld eu gwahodd i awgrymu ffyrdd o wella gwasanaethau UAAC. Roedd rhai ymarferwyr o'r ysgolion uwchradd yn teimlo y byddai diwrnod hyfforddi ychwanegol yn ddefnyddiol o ganlyniad i'r holl ddeunydd a gwybodaeth a drafodwyd.
- 4.2 Roedd dwy o'r ysgolion uwchradd hefyd yn teimlo y byddai'r hyfforddiant wedi bod yn well pe byddai wedi'i rannu'n grwpiau o adnoddau / targedau llai o faint ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Hefyd, roedd diddordeb mewn defnyddio'r patrwm o rannu dyddiau ar gyfer hyfforddiant uwchradd, gan fod llawer yn meddwl bod y cyfle i ddysgu o brofiadau ysgolion eraill yn arbennig o werthfawr.
- 4.3 At hynny, roedd rhai ysgolion yn meddwl y byddent yn elwa o gael gwell cysylltiadau gyda sefydliadau ariannol / busnesau a allai ddod i roi cyflwyniadau gerbron y dosbarthiadau ac atgyfnerthu rhai o'r pethau sy'n cael eu dysgu yn y dosbarth. Gofynnwyd a allai'r Uned hwyluso hyn. I raddau, mae hyn yn digwydd yn barod. Er na cheir unrhyw system ffurfiol ar gyfer gweinyddu neu drefnu digwyddiadau o'r fath, mae cynghorwyr UAAC yn darparu gwybodaeth yn ystod y sesiynau hyfforddi am sefydliadau lleol sy'n awyddus i ymgysylltu ag ysgolion. Mae dogfen ganllaw addysg ariannol Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnwys rhestr o 'bartneriaid posibl', gan gynnwys sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau di-elw y gallai ysgolion ddatblygu cysylltiadau lleol â nhw. Fodd bynnag, efallai y bydd cwmplas i gynnal rhagor o weithgareddau yn y maes hwn. Mae adroddiad¹³ diweddar y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn sôn am ddatblygu 'canolfan ganolog o wybodaeth am brosiectau gallu ariannol'. Roedd Llywodraeth Cymru¹⁴ yn argymhell mynd â hyn rhagddo fel rhan o fewnwyd UAAC yn y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu.

¹³ Adroddiad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru: *Cynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol* (Tachwedd 2010)

¹⁴ Ymateb ysgrifenedig Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar *Gynhwysiant Ariannol ac Effaith Addysg Ariannol*, (12 Ionawr 2011)

Gellid ymgorffori cyfeirlyfr cenedlaethol o bartneriaid lleol a chenedlaethol sy'n barod i gefnogi addysg ariannol mewn ysgolion fel rhan o'r safle.

Canfyddiadau cyffredinol o UAAC

- 4.4 Mae'r rheiny a gafodd eu cyfweld o'r farn bod rhinweddau, sgiliau a gwybodaeth cynghorwyr cyfredol UAAC yn arbennig o werthfawr ac ystyrir eu bod yn ffactorau allweddol yn effeithlonrwydd yr Uned. *"Mae gan staff UAAC gefndir addysgu diweddar ac mae hyn yn golygu eu bod yn deall y cyfyngiadau a'r pwysau sy'n bodoli mewn ysgolion e.e. amserlenni arholiadau neu bwysau'r cwricwlwm ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio yn yr ystafell ddosbarth."*
- 4.5 Yn ystod y cyfweiliadau, bu canmol ar frwdfrydedd ac egni arloesol cynghorwyr UAAC wrth iddynt ymgymryd â'u gwaith.
- 4.6 Mae UAAC wedi meithrin cysylltiadau cryf ar lefel leol ledled Cymru; yn yr un modd, mae gan yr Uned berthnasau gwaith da gyda sefydliadau ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys unedau addysg ariannol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a chyda'r Grŵp Addysg Ariannol Bersonol (PFEG). Roedd aelodau'r grŵp cynghori a gafodd eu cyfweld yn awyddus i bwysleisio gwerth y cysylltiadau hyn. Drwy gyfrwng ei gweithgareddau rhwydweithio, mae'r Uned hefyd wedi perswadio sefydliadau masnachol ar lefel y DU i wneud yn siŵr bod adnoddau a deunyddiau ar gael yn ddwyieithog i adlewyrchu anghenion y cwricwlwm yng Nghymru. Un enghraifft o'r fath yw'r adnodd *'Adding Up to a Lifetime'*, a ddatblygwyd yn y lle cyntaf gan Prudential UK a'r Ymddiriedolaeth Ysgolion ac Academiâu Arbenigol ac yna fe'u cyfieithwyd i'w defnyddio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o ganlyniad i ddylanwad UAAC a thrafodaethau gyda Prudential.
- 4.7 Mae'r ffaith bod yr Uned yn dwyn brand Llywodraeth Cymru yn nodwedd gadarnhaol arall sy'n helpu i hyrwyddo ei statws a'i phroffil yn ôl y rheiny a gafodd eu cyfweld.

Sylwadau i gloi

- 4.8 Mae'r modelau darparu y mae UAAC wedi bod yn eu defnyddio yn cynrychioli rhaglen gymorth effeithiol, sydd o fudd i ysgolion ac Awdurdodau Lleol. Mae gofyn edrych yn fanylach eto ar y modelau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr effaith orau bosibl. Mewn rhai achosion, fe allai hyn olygu parhau i gynnig y cymorth gyda dim ond addasiadau bach yn unig (e.e. ailasesu ffocws a strwythur CPD); dro arall, efallai y bydd gofyn ystyried a all rhai swyddogaethau (codi ymwybyddiaeth a chyfeirio) gael eu cynnig gan gynghorwyr yr Awdurdodau Lleol.
- 4.9 Y farn gyffredinol ymysg y rhieny a gyfrannodd dystiolaeth i'r adolygiad hwn yw ei bod hi'n bwysig, wrth edrych tua'r dyfodol, gwneud yn siŵr bod parhad o ran y rhwydweithiau a'r cysylltiadau strategol a sefydlwyd gan UAAC, gan adeiladu ar yr ymddiriedaeth a'r enw da sydd wedi datblygu hyd yma.

5 Effaith ar arferion yr ystafell ddosbarth ac ar ddeilliannau dysgu

- 5.1 Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r effaith y mae UAAC wedi'i chael. Fel sydd wedi'i nodi yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, mae cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol yn cytuno bod yr Uned wedi cael effaith gadarnhaol ar statws a phroffil addysg ariannol mewn ysgolion ers ei sefydlu. Ystyrir bod addysg ariannol yn cael ei hyrwyddo mewn modd mwy strategol nag o'r blaen lle'r arferai gweithgareddau ddigwydd 'ar hap' yn ôl un cynghorydd.
- 5.2 O ystyried yr amserlen y mae UAAC wedi bod yn gweithio ynddi hyd yma, nid yw'r adolygiad hwn wedi ceisio tystiolaeth o effaith yn nhermau unrhyw ddeilliannau dysgu neu lefelau ymwybyddiaeth o addysg ariannol ymysg disgyblion. Mae'n rhy gynnar i lunio casgliadau fel hyn gan fod angen rhagor o amser cyn i gymorth UAAC dreiddio i'r deilliannau dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Yn hytrach, rydym yn ystyried pa weithgareddau ychwanegol sydd wedi'u hysgogi o ganlyniad i'r cymorth a gynigiwyd gan UAAC. Yn ail, mae'r adran hon yn edrych ar rai o'r rhwystrau sy'n wynebu ysgolion ac Awdurdodau Lleol wrth iddynt geisio hyrwyddo addysg ariannol.

Rhwydweithio a hyfforddiant ychwanegol

- 5.3 Mae'r Uned wedi gweithredu fel catalydd wrth annog cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol i fod yn fwy rhagweithiol wrth hyrwyddo addysg ariannol boed drwy drefnu hyfforddiant a digwyddiadau rhwydweithio neu drwy ddosbarthu adnoddau. Mae'n ddiddorol nodi hefyd i gynghorwyr weld rôl iddynt hwy eu hunain wrth annog ysgolion i *'feddwl y tu allan i'r bocs, er enghraifft drwy gysylltu addysg ariannol ag wythnosau mentergarwch ac arian.'* (Cynghorydd ABCh)

Modelau darparu amgen sy'n dod i'r fei

- 5.4 Gellir gweld effaith UAAC hefyd mewn gweithgareddau deilliedig a chyda dyfodiad modelau darparu amgen ar gyfer addysg ariannol ar lefel leol. Mewn un Awdurdod Lleol, mae grŵp o gydgyssylltwyr ABCh ysgolion uwchradd, gan weithio gyda chynghorydd UAAC, wedi dod ynghyd i ddatblygu rhaglen addysg ariannol y maent yn bwriadu ei chyflwyno ym mhob un o ysgolion uwchradd yr awdurdod. Mae cynghorydd UAAC wedi ymrwymo i ymweld â'r ysgolion hynny nad ydynt yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r rhaglen er mwyn cynnig cyngor ar sut i'w chyflwyno a'i rhoi ar waith. Rhyw fath o fodel 'hybrid' yw hwn lle mae'r ysgolion eu hunain yn gyrru datblygiadau gan holi am arbenigedd UAAC yn ôl y gofyn.
- 5.5 Nodwyd bod y seisynau adborth a gafwyd ar yr ail ddiwrnod o hyfforddiant cynradd yn dystiolaeth bod o leiaf rhyw fath o weithredu wedi bod yn ystafelloedd dosbarth yr athrawon hynny a fu'n mynychu' hyfforddiant. Serch hynny, y farn gyffredinol oedd bod *'llawer mwy o waith i'w wneud – dim ond dechrau dod i arfer â hyn y mae ysgolion'*.
- 5.6 Cafwyd cytundeb hefyd bod gofyn i ysgolion, yn ddelfrydol, ddatblygu ffyrdd o weithio ar draws yr ysgol gyfan neu'n drawsgwricwlaidd gan gynnwys digwyddiadau neu wythnosau â thema (e.e. wythnosau arian) yn hytrach na dibynnu ar weithgareddau untro. Mewn un Awdurdod Lleol, mae UAAC wrthi'n cynnal trafodaethau gyda'r Swyddog Cefnogi Partneriaethau er mwyn trefnu wythnos arian ar draws yr awdurdod cyfan.

UAAC fel catalydd ar gyfer hyfforddiant atodol

- 5.7 Bu dau Awdurdod Lleol yn disgrifio sut yr oeddent wedi cyflwyno'r hyfforddiant i ysgolion eraill yn eu hardaloedd drwy drefnu hyfforddiant mentora. Er bod hon yn enghraifft ddiddorol o weithgarwch deilliedig a mynd ati i ddosbarthu gwybodaeth yn ehangach, roedd un cynghorydd yn awyddus i sôn nad oedd

hi'n ystyried y dylai hyn gymryd lle'r hyfforddiant a gynigir gan UAAC, yn bendant ddim yn y tymor byr.

'Heb yr Uned, fe fyddai'n anodd cynnal cymhelliant ac ymrwymiad pan fo gymaint o bethau eraill yn digwydd hefyd'. (Cynghorydd Mathemateg)

Effaith ar ddisgyblion

- 5.8 Roedd y rhan fwyaf o gynghorwyr yn teimlo ei bod hi'n rhy gynnar i allu gwneud sylwadau ar effaith addysg ariannol ar ddisgyblion. Fodd bynnag, soniodd un cynghorydd bod yr adborth a gafwyd yn ystod yr ail ddiwrnod hyfforddi yn awgrymu bod disgyblion yn dechrau meithrin ymwybyddiaeth o gyllid yn y gymdeithas. Roedd yr athrawon uwchradd y buom yn siarad â nhw hefyd yn teimlo nad oeddent yn gallu sôn am ganlyniadau penodol eto, yn enwedig gan na cheir unrhyw ffordd ffurfiol o asesu addysg ariannol bersonol ar hyn o bryd.
- 5.9 Cafwyd mwy o ymdeimlad o gynnydd / effaith mewn perthynas â disgyblion ysgolion cynradd. Mewn un ysgol mewn dalgylch cymysg, bu'r athro yn sôn bod y disgyblion wedi dod ag amrywiol fathau o wybodaeth a dealltwriaeth i'r ystafell ddosbarth gyda nhw ac y gellid gweld hyn fel cyfle i ddisgyblion ddysgu oddi wrth ei gilydd. Clywodd y tîm am enghreifftiau o blant yn sefydlu eu cynlluniau cynilo eu hunain ar ôl bod yn y gwersi addysg ariannol lle bu'r undebau credyd yn cael eu trafod.

Ystyriaethau a rhwystrau at addysg ariannol mewn ysgolion

- 5.10 Cafodd llawer o ystyriaethau eu codi o ran cynnig addysg ariannol mewn ysgolion. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ysgolion uwchradd yn wynebu mwy o rwystrau na'r sector cynradd. Ar lefel yr ysgol gynradd, nodwyd bod mwy o hyblygrwydd yn y cwricwlwm sy'n ei gwneud yn haws i weithio gyda themâu sy'n golygu y gellir cyflwyno addysg ariannol mewn ffyrdd creadigol a thrawsbynciol. Mewn gwrthgyferbyniad, bu nifer o gynghorywr ac athrawon uwchradd yn sôn am y trafferthion a geir gyda chwricwlwm gorlawn sydd wedi'i

rannu'n adrannau penodol a'r rhwystrau y mae hyn yn ei greu wrth geisio cyflwyno addysg ariannol.

5.11 Bu trafod hefyd am yr angen i weithio ar draws yr ysgol gyfan wrth gyflwyno addysg ariannol yn y sector uwchradd a'r trafferthion a geir wrth geisio gwneud hynny. Bu cynghorwyr ac athrawon yn cydnabod pwysigrwydd ceisio ymgorffori addysg ariannol ar draws ystod o bynciau'r cwricwlwm a chyda gweithgareddau eraill yn yr ysgolion *'gan nad yw disgyblion yn gweld y cysylltiadau na'r athrawon chwaith yn aml. Ond dyma pa bryd y mae disgyblion yn dysgu sgiliau newydd, pan fyddant yn sylweddoli y gallant eu defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau.'* (Cynghorydd Awdurdod Lleol). Fodd bynnag, heb allu gweithio ar draws yr ysgol gyfan, dan arweiniad yr uwch reolwyr, y farn oedd ei bod hi'n anodd ehangu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd addysg ariannol y tu hwnt i wersi Mathemateg ac ABCh.

5.12 Hefyd, roedd un athro ysgol uwchradd yn meddwl y byddai gwrthwynebu ac ymrwrthod wrth geisio cael trafod y pwnc ar lefel ysgol gyfan.

'Mae'n anodd cael stwff i mewn i'r amserlen, yn enwedig pan fyddwch chi'n cystadlu yn erbyn asesiadau sy'n cael eu rheoli – mae'n rhaid blaenoriaethau'r rheiny.'

Bu ymarferwyr eraill yn sôn y bydd addysg ariannol wastad yn cael ei bwrw i'r naill ochr a'i bychanu gan bynciau eraill sy'n cael blaenoriaeth gan nad oes unrhyw rwymedigaeth i adrodd ar addysg ariannol nac ychwaith i gynnal unrhyw asesiadau. Mae hyn yn gwneud i ni holi tybed a oes mwy y gellid ei wneud drwy gyfrwng y fframwaith arolygiadau cyfredol er mwyn hyrwyddo addysg ariannol.

5.13 Roedd cynghorwyr o'r farn fod yr hyfforddiant wedi effeithio'n uniongyrchol ar ymwybyddiaeth a phroffil llythrennedd ac addysg ariannol ymysg athrawon a fynychodd y sesiynau hyfforddi. Fodd bynnag, mynegwyd peth amheuaeth o ran pa mor bell y mae'r ymwybyddiaeth hon neu'r proffil uwch hwn yn debygol o gael eu lledaenu ar draws meysydd pwnc eraill yr ysgolion.

- 5.14 O ran newid arferion a'r hyn a gynigir yn yr ystafell ddosbarth, roedd y rhan fwyaf o'r cynghorwyr yn teimlo ei bod hi'n rhy gynnar i dynnu casgliadau ynghyd. Mae dau awdurdod yn bwriadu cynnal dyddiau i adolygu ac adlewyrchu yn y dyfodol a fyddai'n gyfle iddynt asesu effeithiau o'r fath. Fe fydd hi'n ddiddorol monitro'r hyn a ddaw o'r sesiynau.

6 Cefnogi addysg ariannol mewn cyd-destun ehangach

- 6.1 Mae'r adran hon yn edrych ar y potensial i ehangu'r cymorth a gynigir gan UAAC i sectorau eraill. Mae'n edrych ar y cymorth ychwanegol a ddarperir gan gynghorwyr UAAC i sectorau eraill eisoes gan nodi'r materion y mae gofyn eu hystyried wrth feddwl am y posibilrwydd o gynnig cymorth i sectorau a sefydliadau pellach.

Cymorth ychwanegol a gynigir eisoes

- 6.2 Mae'r Uned wedi dangos ei gallu a'i pharodrwydd i ehangu o ran y mathau o wasanaethau a gynigir a'r sectorau a gefnogir ganddi. Mae cynghorwyr UAAC wedi darparu ystod o wasanaethau mewn lleoliadau sy'n mynd y tu hwnt i'r tri model darparu a amlinellir yn adran 3 yr adroddiad hwn. Dyma rai enghreifftiau:

- Cynnig hyfforddiant a chymorth i **gymdeithas athrawon** (Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Addysg Gynradd);
- Mynychu **fforwm penaethiaid**;
- Cynnig cymorth ac arweiniad wrth gynllunio '**wythnosau arian**' â thema mewn ysgolion;
- Cefnogi tîm **Dysgu fel Teulu** yr Awdurdod Lleol, gan gynnig arweiniad ar gynnwys adnoddau gallu ariannol fel rhan o'r hyfforddiant sgiliau sylfaenol ar gyfer oedolion;
- Cefnogi darparwr **Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon**, gan gynnwys seiswn hyfforddi i fyfyrwyr HCA ar addysg ariannol.

- 6.3 Mae'r ddau bwynt olaf hyn, sy'n ymwneud â dysgu fel teulu a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA), yn arbennig o ddiddorol. Maent yn agor meysydd gwaith newydd gyda'r potensial i gael effeithiau sylweddol.

Y Cyfnod Sylfaen

- 6.4 Ceir tystiolaeth sy'n dangos bod y cymorth a ddarperir gan UAAC, er ei fod wedi'i dargedu at Gyfnod Allweddol 2, wedi arwain at fanteision ychwanegol yn

y Cyfnod Sylfaen hefyd. Bu athrawon cynradd a gafodd eu cyfweld yn sôn am ffyrdd o weithio ar draws yr ysgol gyfan, lle'r oedd adnoddau wedi'u defnyddio gyda Blwyddyn 1 a 2. Mae athrawon yn cydnabod bod gofyn gweithio mewn gwahanol ffyrdd gyda grwpiau oedran iau. Bu rhai ysglioni yn canolbwyntio ar hyn yn ystod Diwrnod 2 yr hyfforddiant CPD cynradd. Er enghraifft, bu un athro cynradd yn esbonio sut yr oedd ei hysgol wedi dechrau cynllunio darpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar y themâu a gafodd eu cynnwys yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar addysg ariannol:

Y CYFNOD SYLFAEN

Thema: Dealltwriaeth ariannol:

Nod: Bydd disgyblion yn gallu siarad am y pethau y gallant fod am wario eu harian arnynt.

Thema: Cyfrifoldeb ariannol:

Nod: Dechrau deall canlyniadau bod â mwy neu lai o arian.

Nod: Dechrau cydnabod bod y boddhad a geir o wario arian yn amrywio yn ôl natur yr hyn a gaiff ei brynu.

- 6.5 Mae ysgolion yn cydnabod manteision cyflwyno elfennau o addysg ariannol cyn gynted ag sy'n bosibl ac mae ystod o adnoddau ar gael sy'n cynnwys gweithgareddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen i gefnogi gwaith yn y maes hwn. Mae cynghorydd cynradd UAAC eisoes yn darparu enghreifftiau o sut y mae adnoddau wedi bod yn cael eu defnyddio yn y Cyfnod Sylfaen neu sut y gellid eu defnyddio yn y dyfodol. Mae'n bosibl y gall hwn fod yn faes lle mae galw am ragor o sylw wrth i rôl UAAC yn y dyfodol gael ei thrafod.

Addysg ariannol a dysgu fel teulu

- 6.6 Yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion, roedd nifer o'r athrawon wedi cyfeirio at bwysigrwydd cefndir y teulu wrth osod y cyd-destun a'r cefndir i ymwybyddiaeth ariannol plant a phobl ifanc. Er bod ysgolion yn gallu darparu gwybodaeth i

gefnogi llythrennedd ariannol, yn gyffredinol, mae'r agweddau a'r ymddygiad y mae plant yn eu gweld gartref yn effeithio'n sylweddol ar agweddau tuag at gyllid ac ymwybyddiaeth ariannol. Bu cynghorywr yr Awdurdod Lleol ac athrawon yn mynegi pryder y dylid gwneud mwy i godi lefelau gallu ac ymwybyddiaeth ariannol yn y gymuned ehangach.

6.7 Mae ysgolion eisoes yn mynd i'r afael â hyn mewn sawl ffordd. Mae 'wythnosau arian' ysgolion yn mynd ati'n gynyddol i geisio cynnwys rhieni a'r gymuned fel rhan o'r gweithgareddau, boed hynny'n ddigwyddiadau ar ôl yr ysgol, mentrau dan arweiniad disgyblion neu ffeiriau a gwyliau.

6.8 At hynny, mae UAAC wedi datblygu cysylltiadau gydag adrannau Gwasanaethau i Deuluoedd / Dysgu i'r Teulu yr Awdurdodau Lleol gan gynnig mewnbwn i fodiwlau addysg ariannol fel rhan o'r ddarpariaeth sgiliau sylfaenol ar gyfer oedolion. Mae gan hyn y potensial i wella darpariaeth ar gyfer rhieni sydd â lefelau rhifedd a llythrennedd isel (gan gynnwys llythrennedd ariannol).

"Mae'n aneffeithiol i ysgolion fod yn hyrwyddo'r agenda hon oni bai ein bod ni'n gweithio i fynd i'r afael â'r ddealltwriaeth wael o arian a materion ariannol sy'n bodoli mewn rhannau helaeth o'r gymdeithas. Mae gofyn datblygu ffordd holistaidd o weithio fel bod camau gweithredu a negeseuon cadarnhaol yn cael eu cyflwyno gerbron plant a'u teuluoedd." (Cynrychiolydd Awdurdod Lleol)

6.9 Dyma faes gwaith y gallai UAAC ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol, gan dynnu ar y gwersi a ddysgwyd o'r ymwneud hwn â dysgu i deuluoedd hyd yma a gweithio gyda rhwydweithiau ac Awdurdodau Lleol eraill i wneud yn siŵr bod addysg ariannol yn chwarae rhan flaenllaw mewn rhaglenni i wella sgiliau sylfaenol.

Cyngor i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

6.10 Datblygiad diweddar yw hwn ond yn wir, datblygiad a allai, yn y tymor canolig i'r tymor hwy, godi proffil a statws addysg ariannol mewn ysgolion a helpu i wneud yn siŵr y daw'n rhan fwy canolog o'r modd y darperir y cwricwlwm.

Mae'r ddau gynghorydd UAAC wedi bod yn rhagweithiol wrth gysylltu â darparwyr hyfforddiant athrawon er mwyn hyrwyddo addysg ariannol ac archwilio ffyrdd o gael mewnbwn i'r cwrs a ddarperir. Mae'r cynghorydd cynradd wedi ymweld ag un sefydliad addysg Uwch i drafod y posibilrwydd o gynnig sesiwn i fyfyrwyr er mwyn dangos sut y gellir cynnig addysg ariannol fel rhan o'r cwricwlwm. O ganlyniad, bwriedir cynnal dwy sesiwn yn ystod tymor yr haf i gyflwyno dulliau o gynnig addysg ariannol ar draws y cwricwlwm cynradd. Mae cynghorydd uwchradd UAAC hefyd wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda darparwyr HCA ac wedi cael mewnbwn i TAR Mathemateg uwchradd a TAR Astudiaethau Busnes uwchradd.

- 6.11 Mae gofyn meddwl mwy am sut y gellid mynd â hyn rhagddo yn y dyfodol. Fodd bynnag, ymddengys bod codi ymwybyddiaeth ymysg darpar athrawon, a hynny'n gynnar, yn elfen bwysig ar y gwaith o geisio gwneud yn siŵr bod addysg ariannol yn rhan ganolog o'r cwricwlwm.

Addysg Bellach a lleoliadau eraill

- 6.12 Cytunodd aelodau o grŵp cynghori UAAC bod gofyn edrych ar gyfleoedd i gysylltu â phrosiectau ehangach ym maes Addysg Uwch ac Addysg Bellach, yn ogystal ag mewn lleoliadau gwaith ieuenctid. Prin fu'r cyswllt a gafodd UAAC hyd yma â sefydliadau Addysg Bellach (er bod cysylltiadau wedi'u datblygu drwy gyfrwng cynrychiolaeth Colegau Cymru ar y grŵp cynghori).
- 6.13 Mae gweithgareddau i hyrwyddo gallu ariannol yn y sector Addysg Bellach wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Wythnos Arian, a sefydlwyd yn 2009, wedi derbyn cymorth gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (ac yn fwy diweddar, y Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr, CFEB) ac eleni, mae wedi elwa ar nawdd ychwanegol gan Barclays. Mae CFEB yn rhoi pwyslais cynyddol ar hyrwyddo addysg ariannol yn y grŵp oedran ôl -16, sy'n ysgogi cwestiynau am ffocws y gweithgarwch a gynhelir yma yng Nghymru.
- 6.14 Mae'n bwysig nad yw'r momentwm a gaiff ei gynhyrchu drwy gyfrwng gwaith UAAC gydag ysgolion yn cael ei golli. Fodd bynnag, mae gan UAAC ystod

eang o arbenigedd ac adnoddau a allai gefnogi ymdrechion o'r fath i wella gallu ariannol ym maes Addysg Bellach (ac uwch). Mae hyn yn gofyn am waith cynllunio gofalus er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw weithgarwch neu gymorth newydd yn cydweddu â phrosiectau sydd eisoes yn cael eu cynnig gan Golegau Cymru, CFEB a phartneriaid eraill. Er enghraifft, ni fyddai'n gwneud fawr o synnwyr i UAAC fynd ati i ymestyn ei hyfforddiant i ymarferwyr Addysg Bellach yn unig gan fod cyrsiau hyfforddi achrededig eisoes yn cael eu cynnal gan yr Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Ariannol y mae staff 120 ACL / Addysg Bellach yng Nghymru eisoes wedi elwa arnynt.

- 6.15 Un opsiwn syml fyddai gweithio gyda Cholegau Cymru a cholegau unigol i godi ymwybyddiaeth o'r adnoddau a gyhoeddwyd ar wefan UAAC a chyfeirio pobl at y deunyddiau hynny sy'n briodol ac yn berthnasol i ddysgwyr ôl-16. Mae trafodaethau eisoes wedi'u cynnal gyda Cholegau Cymru gyda'r nod o gyhoeddi deunyddiau a ddatblygir fel rhan o'r prosiect 'Arian am Oes' sydd wedi'i anelu at ddysgwyr ôl-16.

7 Cyflawni yn erbyn cerrig milltir y Cynllun Strategol

- 7.1 Nodwyd cerrig milltir ar gyfer 2009-10 a 2010-11 yng nghynllun strategol UAAC. Mewn nifer o achosion, deilliannau neu allbynnau (proses) yw'r cerrig milltir (sydd wedi'u cynnwys yn y tabl isod) ac maent yn gadarnhad o'r gwasanaethau a ddarperir gan UAAC. Ni cheir unrhyw feincnodau na thargedau penodol.
- 7.2 Bwriedir i hyn gyd-fynd â thystiolaeth a gyflwynwyd yn adrannau blaenorol yr adroddiad hwn, sy'n trafod llawer o'r gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn y cerrig milltir.

Cerrig milltir 2009-10	Sylwadau cryno
1. Sefydlu Grŵp Llywio gyda chynrychiolaeth o randdeiliaid allweddol i gynghori ar gynlluniau UAAC a monitro cynnydd.	Mae grŵp cynghori UAAC yn cynnwys cynrychiolaeth o amrywiol leoliadau sydd â diddordeb ym maes addysg ariannol bersonol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, CFEB, Awdurdodau Lleol, ysgolion, Estyn a Cholegau Cymru. Mae'r grŵp cynghori yn cyfarfod rhyw 3 gwaith y flwyddyn ar gyfartaledd, gan ddarparu arweiniad a chan graffu ar weithrediad a blaenoriaethau'r Uned.
WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR	
2. Cynhyrchu a lledaenu canllawiau i ymarferwyr ar ofynion a chyfleoedd y cwrwllwm ysgol i ddarparu addysg ariannol.	Cyhoeddwyd canllawiau ar ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion a cholegau gan Lywodraeth Cymru fis Rhagfyr 2010. Er nad oedd y canllawiau'n cael eu defnyddio'n helaeth gan yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr adolygiad hwn, mae'n ddogfen glir a chynhwysfawr, sy'n pwysleisio sut y gellir cymhwyso addysg ariannol i gefnogi fframwaith sgiliau disgyblion 7-19 oed Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd y canllawiau yn hwyrach nag a fwriadwyd ond nid yw hyn fel pe bai wedi cael fawr o effaith ar waith yr Uned wrth iddi gefnogi ysgolion.

3. Datblygu rhaglen dreigl o gymorth ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ar ddarparu addysg ariannol.	WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR ER I'R CANLLAWIAU GAEL EU CYHOEDDI'N HWYRACH NAG A FWRIADWYD. WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR – gweler adran 3.

4. Hybu'r gwasnaethau cymorth a ddarperir gan yr Uned drwy: - sefydlu presenoldeb ar y we a fydd yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau ac yn dolenni at GCaD Cymru erbyn diwedd Mawrth 2010; - sefydlu a chynnal cyswllt effeithiol â'r rhwydweithiau cynghorywr Cymru gyfan ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) a Mathemateg; - datblygu cysylltiadau â sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â darparu addysg ariannol mewn ysgolion ar draws y DU; - cyhoeddi erthyglau yn <i>Newyddion cwricwlwm ac asesu APADGOS</i> a chyfryngau priodol eraill.	Dechreuodd y gwaith cychwynnol o ddatblygu presenoldeb UAAC ar y we, wedi'i chynnal gan safle GcaD, yn ystod 2009-10, er nad oedd y safle'n fyw yn ystod y cyfnod hwn. CYNNYDD WEDI BOD, FODD BYNNAG, Y GARREG FILLTIR HEB EI CHYRRAEDD ERBYN MAWRTH 2010 Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad hwn, mae UAAC wedi sefydlu cysylltiadau cryf gyda rhwydweithiau cynghorwyr. WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR Mae gan UAAC gysylltiadau gydag unedau cyfatebol yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon; ceir cysylltiadau da hefyd gyda CFEB drwy ei gynrychiolaeth ar y grŵp cynghori. WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR Daeth <i>Newyddion cwricwlwm ac asesu APADGOS</i> i ben yn 2010 yn dilyn adolygiad o gyhoeddiadau ac yn ei le, daeth cylchlythyrau electronig rheolaidd i ysgolion. Mae gwaith UAAC wedi'i hyrwyddo yn y cylchlythyrau hyn, drwy gyfrwng cylchlythyr DYSG a thrwy gyfrwng gwefan Llais Disgyblion. Mae cynghorywr UAAC hefyd wedi bod yn cyfrannu'n rheolaidd at astudiaethau achos yng Nghylchlythyr Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru. WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR.
5. Adrodd ar waith gyda darparwyr adnoddau addysgu yn y sector gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac addasu adnoddau addysgu sy'n addas i'w defnyddio yng Nghymru.	Bu llawer o'r gwaith a gynhaliwyd gan UAAC yn ystod 2009-10 yn canolbwyntio ar ymwneud â darparwyr adnoddau, gan gynnwys lobiö am adnoddau i adlewyrchu angehnyddion penodol cwricwlwm Cymru. Darparwyd adroddiad ar yr ymrwymiad hwn yn ystod cyfarfod grŵp cynghori UAAC fis Mawrth 2010. WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR
6. Datblygu, mewn trafodaeth ag Estyn a phartneriaid	Bu UAAC yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu manyleb ar gyfer cylch gwaith

allweddol eraill, fanyleb ar gyfer canllawiau ar arferion da wrth ddarparu addysg ariannol.	Estyn ar addysg ariannol. Mae hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae wedi cefnogi Estyn i ddarparu astudiaethau achos. Mae disgwyl i Estyn adrodd ar hyn fis Mai 2011; mae'r broses waith wedi cynnwys arolwg o Awdurdodau Lleol ac ymweliadau ag ysgolion ddiwedd 2010.
	WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR
Cerrig milltir 2010-11	Sylwadau cryno
1. Gweithredu o fis Ebrill 2010 y flwyddyn gyntaf lawn o'r rhaglen gymorth i ysgolion cynradd ac uwchradd wedi'i datblygu a'i chytuno yn 2009-10.	Rhaglen gymorth wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus. Ysgolion a chynghorywr yr Awdurdodau Lleol yn fodlon â hyn.
	WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR
2. Parhau i ehangu presenoldeb ar y we, erbyn diwedd Mawrth 2011, i ddarparu porth cydnabyddedig y gall ymarferwyr ei ddefnyddio wrth gyrchu cyngor ac adnoddau addysgu i gefnogi darparu addysg ariannol yng Nghymru.	Aeth gwefan UAAC yn fyw fis Chwefror 2011. Bydd y gwaith o ddiweddarau'r safle yn broses barhaus o ran Newyddion a Digwyddiadau, ac o ran ychwanegu ati a diweddarau'r adnoddau sydd eisoes arni. Fel arall, mae strwythur y safle'n gyflawn.
	WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR
3. Adrodd erbyn diwedd Mawrth 2011, ar waith parhaus gyda darparwyr adnoddau addysgu yn y sector gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau addysgu i'w defnyddio gyda phobl ifanc mewn addysg llawn amser.	Mae'r Uned wedi parhau i weithio gyda darparwyr adnoddau. Diweddarwyd Grŵp Cynghori UAAC ar 22 Hydref 2010, a darparwyd diweddariad arall yn ystod cyfarfod y Grŵp ar 7 Ebrill 2011.
	WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR
4. Cyhoeddi, erbyn diwedd Mawrth 2011, ganllawiau ar arferion da wrth ddarparu addysg ariannol i bobl ifanc 7 i 19 oed sydd yn yr ysgol.	Mae'r garreg filltir hon yn cyfeirio at y gwaith a wneir ar hyn o bryd gan Estyn i adnabod arfer da. Fe gyfrannodd UAAC at y gwaith o ddatblygu manyleb y gwaith hwn. Disgwylir i'r canllawiau gael eu cyhoeddi gan Estyn fis Mai 2011.
	WEDI CYRRAEDD Y GARREG FILLTIR

8 Casgliadau ac Argymhellion

- 8.1 Mae'r adran hon yn dechrau drwy amlinellu rhai o gasgliadau cyffredinol proses yr adolygiad. Mae'r casgliadau cyffredinol hyn yn rhoi cyd-destun ar gyfer argymhellion a chanfyddiadau penodol yn ymwneud â gweithgareddau UAAC ac yn eu llywio. Caiff y rhain eu cynnwys tua diwedd y bennod hon.

Casgliadau cyffredinol

- 8.2 Roedd penaethiaid, athrawon a chynghorwyr yr Awdurdodau Lleol fwy neu lai'n gwbl unfryd wrth gefnogi i'r Uned hon gael parhau. Roedd y rheiny a gyfrannodd at yr adolygiad yn gweld parhad yn y galw ac yn y rôl i hyrwyddo a chefnogi addysg ariannol mewn ygsolion a hefyd o bosibl, mewn ystod ehangach o leoliadau. Mewn un cyfweiliad, cafwyd sylwadau a oedd yn crynhoi barn gymaint o bobl am waith yr Uned *'gan mai dim ond newydd ddechrau arni y mae'r Uned, fe fyddai'n drueni mawr iddi ddod i ben nawr'*. (Cynghorydd Awdurdod Lleol).
- 8.3 Mae llawer o'r farn bod gofyn i UAAC bellach gamu i gyfnod newydd a bod gofyn ailwerthuso ac addasu'r cymorth a gynigir i ysgolion. Teimlir y dylai pethau symud tuag at gynnig rhagor o gymorth wrth gynllunio ac ymgorffori addysg ariannol wrth roi'r cwricwlwm ar waith. *'Y cam nesaf fydd i ni deilwra cynlluniau gwaith a gwaith cynllunio. Dyma ble bydden ni'n gwerthfawrogi rhagor o gymorth.'* (Athro, ysgol uwchradd).
- 8.4 Wrth ystyried gwerth am arian a rhannu arfer da, mae gofyn gwneud yn siŵr bod yr hyn a gaiff ei ddysgu o'r cymorth a ddarperir gan UAAC yn dod ar gael i'r ystod ehangaf bosibl o ysgolion. Mae'n hanfodol bod y broses o ddosbarthu a rhaeadru gwybodaeth am arferion effeithiol yn rhan o'r ffordd y bydd UAAC yn gweithio. Er enghraifft, dylid annog ysgolion i rannu gwybodaeth ac arferion arloesol gydag eraill yn eu clwstwr neu 'deulu o ysgolion'.

Blaenoriaethau ar gyfer cymorth parhaus i ddarparu addysg ariannol mewn ysgolion

8.5 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr adolygiad, mae'n bwysig bod rhaglen o wasanaethau cymorth yn parhau i fod ar gael. Fel sydd wedi'i nodi'n barod yn yr adroddiad hwn, nid yw mynd ati i gategoreiddio'r gyfres o amrywiol fathau o gymorth a chynghor a ddarperir gan staff UAAC yn ôl y modelau darparu penodol yn adlewyrchiad teg o'r holl fathau o gymorth a gynigir, sydd wedi datblygu ac esblygu yn ystod oes yr Uned. Mae hi hefyd yn anhebygol y gellid cynnig unrhyw un o'r modelau ar eu pen eu hunain heb gysylltu â'r gweddill. Tra'n cydnabod bod cymorth UAAC wedi datblygu, mae'r tablau isod yn crynhoi casgliadau'r adolygiad mewn perthynas â Model 1, 2 a 4. Yn dilyn hyn, rydym yn ystyried y cymorth a'r gweithgareddau ychwanegol a gynigir gan UAAC, gan gynnwys a ddylid parhau i gynnal cymorth o'r fath neu a ddylid ei ymestyn i sectorau eraill.

Tabl 1: Casgliadau cryno mewn perthynas â Model

Dylunio a darparu hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus (Model 1)	Parhau'n flaenoriaeth bwysig
<u>Casgliadau cyffredinol</u> - Mae cynyddu maint y ddarpariaeth addysg ariannol a gynigir yng Nghymru a safon y ddarpariaeth honno yn gofyn am newid sylweddol mewn ysgolion. Canfu'r adolygiad bod angen rhaglen gymorth dan arweiniad er mwyn helpu i wneud y newidiadau angenrheidiol. - Mae cynnig CPD i ymarferwyr yn ffordd effeithiol o gyrraedd ystod eang o ysgolion a darparu'r cymorth dan arweiniad hwn. Mae'n galluogi ymarferwyr i ddeall yn well beth yw'r cyfleoedd sydd ar gael i ymgorffori addysg ariannol mewn pynciau eraill, i gael eu cyflwyno i adnoddau ac i ddechrau cynllunio sut y byddant yn cynnig hyn yn yr ystafell ddosbarth. - Mae nifer mawr o ysgolion (yn enwedig ysgolion cynradd) nad ydynt wedi derbyn unrhyw hyfforddiant o gwbl. Mae ambell un wedi dadlau bod trosiant staff yn golygu y byddai'r ysgolion hynny sydd wedi'u cynrychioli mewn	

seisynau hyfforddi CPD hyd yn oed yn elwa ar hyfforddiant ychwanegol neu i'w hatgoffa o'r wybodaeth ac i gynyddu eu dealltwriaeth ymhellach. Mae ymarferwyr yn meddwl bod yr hyfforddiant yn arbennig o werthfawr wrth ddangos sut y gellir cymhwyso addysg ariannol yn yr ystafell ddosbarth a sut y mae'n perthyn i'r cwricwlwm ehangach.
<u>Newidiadau arfaethedig</u> - Canfu'r adolygiad efallai y dylid symud pwyslais o ran cynnwys yr hyfforddiant a'r modd y'i darperir. I raddau, mae hyfforddiant CPD wedi'i ddefnyddio i roi gwybod am yr adnoddau sydd ar gael, i godi ymwybyddiaeth ac i gyfeirio ymarferwyr at amrywiol adnoddau. Mae cynghorwyr UAAC yn briodol wrth iddynt barchu barn broffesiynol ymarferwyr wrth iddynt benderfynu beth fyddai'r deunyddiau mwyaf addas a sut i'w defnyddio wrth gynnig addysg ariannol. - Serch hynny, mae symud graddol wedi bod tuag at ffordd fwy 'cyfeiriol / gorchmynol' o weithio, y dylid ei ffurfioli o ran y ffordd y caiff yr hyfforddiant ei strwythuro. Yn ymarferol, fe allai hyn olygu mwy o ffocws ar gynllunio gan ddangos enghreifftiau o sut y mae cynlluniau gwaith wedi'u datblygu neu sut y gellid eu datblygu i ymgorffori addysg ariannol. Dylai'r newid hwn mewn pwyslais fod yr un mor berthnasol i hyfforddiant cynradd ac uwchradd.

Tabl 2: Casgliadau cryno mewn perthynas â Model 2

Cyngor ar ddarparu a chael mynediad at ragor o gymorth i benaethiaid Mathemateg ac ABCh mewn cyfarfodydd a gynhelir gan yr Awdurdodau Lleol (Model 2)	Llai o flaenoriaeth; mae'n bosibl y gallai cynghorwyr yr ALI ddarparu rhai agweddau
<u>Casgliadau cyffredinol</u> Mae llawer o'r farn bod y model hwn yn bwysig o ran codi ymwybyddiaeth. Mae wedi bod yn gweithredu fel porth i rai ysgolion gael mynediad at gymorth ychwanegol ar y safle. Mae mewnbyn cynghorwyr UAAC yng nghyfarfodydd	

cydgysylltwyr ABCh a Mathemateg yn amrywio yn ôl faint o amser a gaiff ei neilltuo i addysg ariannol ar agenda'r cyfarfod. Fel rheol, bydd hyn yn amrywio o 40 munud i 2 awr. Mae nifer y cyfarfodydd ac amllder y cyfarfodydd hynny lle mae UAAC wedi cael mewnbwn hefyd yn amrywio ar draws ardaloedd yr Awdurdodau Lleol. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, mae cymorth wedi'i gynnig mewn cyfarfodydd cydgysylltwyr ABCh a Mathemateg yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf. Mewn Awdurdodau Lleol eraill, mae'r mewnbwn wedi bod yn fwy cyfyngedig neu mae UAAC wedi cynnig cymorth drwy gyfrwng fforymau eraill, gan gynnwys rhwydweithiau penaethiaid lleol.

- Mae'r cyfarfodydd hyn yn ddefnyddiol o ran meithrin perthnasau, gyda phenaethiaid Mathemateg ac ABCh ysgolion yn ogystal â chyda chynghorywr yr Awdurdodau Lleol. Nid oes amheuaeth bod presenoldeb cynghorwyr UAAC yn y cyfarfodydd hyn wedi helpu i godi proffil gwaith yr Uned. Yn yr un modd, mae cynghorwyr Awdurdodau Lleol yn gwerthfawrogi'r arbenigedd a'r wybodaeth sy'n cael eu cyfrannu i'r trafodaethau gan gynghorywr UAAC.
- Nid yw'n glir beth yw effaith y model darparu hwn ar y modd y darperir addysg ariannol yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n ddibynol ar benaethiaid Mathemateg ac ABCh mewn ysgolion unigol i weithio ar eu menter eu hunain drwy gyflwyno newidiadau a rhae adru gwybodaeth i gydweithwyr.

Newidiadau arfaethedig

- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y model hwn wedi bod yn gyfrwng effeithiol i godi ymwybyddiaeth o UAAC (ac addysg ariannol yn fwy cyffredinol), i rwydweithio ac i gyfeirio pobl at gymorth pellach. Fodd bynnag, wrth i ffocws y gweithgarwch symud tuag at gynorthwyo staff i gynllunio ac ymgorffori addysg ariannol yn y cwricwlwm, fe fyddai'n rhesymol felly i'r model hwn gael llai o flaenoriaeth.
- Fe allai peth o'r wybodaeth a gyflwynir gan gynghorwyr UAAC yn y cyfarfodydd hyn gael ei ddarparu gan gynghorywr yr Awdurdodau Lleol eu

hunain, yn bennaf, gwybodaeth am y cymorth ychwanegol sydd ar gael, unrhyw hyfforddiant CPD sydd ar y gweill neu adnoddau penodol sydd ar gael / cyfeirio drwy gyfrwng gwefan UAAC.

Tabl 3: Casgliadau cryno mewn perthynas â Model 4

Ymgynghoriaeth ad hoc a chynghor i ysgolion unigol, gan ymateb i geisiadau penodol (Model 4)	Parhau'n flaenoriaeth bwysig; angen aifodelu
<u>Casgliadau cyffredinol</u> - Mae UAAC yn teilwra'i chymorth drwy ymateb i geisiadau ac anghenion penodol yr ysgolion. Caiff hyn ei werthfawrogi gan yr ysgolion a chan gynghorwyr yr Awdurdodau Lleol. Mae'n gyfle i drafod adnoddau penodol yn fanwl a sut y gall yr athrawon eu defnyddio. Mae UAAC wedi helpu i lunio unedau penodol er mwyn ymgorffori addysg ariannol yn y cwricwlwm ABCh. - Mae nifer o'r farn bod ymgysylltu ag ysgolion yn bwysig wrth 'ennill y ddadl' dros weithio ar lefel ysgol gyfan. Mae'r rheiny a gafodd eu cyfweld yn awgrymu bod angen cynnal gwaith dwys gydag ysgolion unigol er mwyn dangos sut y gellir gwneud yn siŵr bod gwell addysg ariannol yn dod yn rhan o'r hyn a gynnigir mewn amrywiol fathau o ysgolion. - Mae'r cymorth a gynnigwyd o dan y model hwn yn pwysleisio eto pa mor ymatebol a hygyrch y mae'r Uned wedi bod. Hyd yma, mae cynghorywr UAAC wedi ymateb i bob cais a ddaeth i law gan ysgolion am gymorth ar y safle. - Ystyrir bod y cymorth mwy dwys a gynnigir gan UAAC yn ystod yr ymweliadau ysgol ar ei fwyaf effeithiol pan fydd penaethiaid neu aelodau o'r uwch dîm rheoli yn rhan o'r gwaith hefyd.	
<u>Newidiadau arfaethedig</u> Hyd yma, mae ymweliadau ag ysgolion i ddarparu cymorth dwys wedi bod yn	

digwydd yn ad hoc. Nid ydynt ychwaith wedi bod yn gweithio dan unrhyw feini prawf nac yn cael eu harwain gan unrhyw ddeilliannau penodol a nodwyd. Er mwyn gwneud y mwyaf o effaith y model cymorth hwn a'r hyn y gellid ei ddysgu o ganlyniad, rydym o'r farn y dylid gweithio mewn modd mwy strwythuredig. Gallai hyn olygu bod y ddwy ochr (yr ysgol a chynghorydd UAAC) yn cytuno ar yr amcanion a fwriedir. Mae'n debyg y bydd gofyn cynnal cyfres o ymweliadau.

- i. Gellid defnyddio ymweliad cyntaf (yn cynnwys cyfarfod gyda chyswllt addysg ariannol allweddol yn yr ysgol a'r pennaeth) i drafod beth hoffai'r ysgol ei gael / gyflawni drwy gyfrwng y cymorth, gan nodi deilliannau penodol. Gallai hyn fod yn sail i gytundeb bras y bydd yr ysgol yn ei lofnodi ac fe fyddai'n arwydd o ymrwymiad yr ysgol i wella addysg ariannol ar ôl cael cymorth gan UAAC.
 - ii. Dylai'r cytundeb hwn hefyd nodi sut y bydd yr hyn a gaiff ei ddysgu neu'r arfer da a ddatblygir diolch i'r cymorth yn cael ei rannu gydag ysgolion eraill, boed drwy weithio mewn clwstwr gyda phartneriaid o ysgolion cynradd / uwchradd, ar lefel yr Awdurdod Lleol neu ar lefel genedlaethol hyd yn oed. (Mae gwefan UAAC yn fecanwaith pwysig wrth rannu arferion ac astudiaethau achos).
 - iii. Ar ddiwedd y broses, bydd arfarniad byr yn ystyried a yw'r deilliannau a fwriadwyd wedi'u cyflawni. Gellid trefnu ailymweliadau er mwyn asesu, maes o law, p'un a yw'r cymorth a gynigiwyd wedi effeithio ar y modd y darperir addysg ariannol yn ôl y bwriad.
- Prif egwyddorion y model hwn yw y dylai'r cymorth barhau i fod yn **hyblyg** (gan ymateb i amgylchiadau ac anghenion penodol yr ysgol), yn **atebol** (gyda'r cymorth yn seiliedig ar ddeilliannau ac amcanion y cytunwyd arnynt) ac yn gymorth y gellid ei **rannu** (gyda systemau ar waith i rannu a dosbarthu arfer da wrth addysgu a dysgu). Er enghraifft, dylid ei alinio gydag egwyddorion cymunedau dysgu proffesiynol (PLC).

Blaenoriaethau y tu hwnt i'r modelau cymorth

Datblygu adnoddau ymhellach

- 8.6 Mae cynghorwyr yr Awdurdodau Lleol ac athrawon yn cydnabod gwerth gwneud yn siŵr bod deunyddiau ac adnoddau ar gael i ysgolion eraill drwy gyfrwng GCaD er mwyn ehangu mynediad at yr adnoddau sydd ar gael ac i ehangu'r ystod o adnoddau sydd ar gael. Nodwyd angen parhaus am adnoddau Cymraeg eu hiaith ac roedd sawl cynghorydd yn gweld bod gwerth i UAAC barhau i lanlwytho adnoddau ar wefan GCaD.
- 8.7 Roedd cynghorywr hefyd yn gweld rôl i UAAC wrth gydgrynhoi'r adnoddau sydd wedi'u cyhoeddi a'r enghreifftiau o arfer da a welwyd mewn ysgolion sydd wedi'u cynhyrchu drwy gyfrwng y seisynau hyfforddi. Bu cynghorywr un awdurdod yn esbonio sut yr hoffent weld yr Uned yn datblygu gwahanol becynnau, yn enwedig ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar 'sgiliau hanfodol' ar gyfer ysgolion uwchradd.
- 8.8 Roedd y cynghorwyr hyn hefyd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol i UAAC ddatblygu mwy o drosolwg o sut y caiff addysg ariannol ei chyflwyno mewn ysgolion¹⁵. Byddai hyn yn eu helpu i weld pa feysydd sy'n cael eu trafod mewn gwersi Mathemateg a beth sydd angen ei wneud mewn gwersi ABCh er enghraifft. Bu cynghorydd a grŵp o athrawon cynradd yn egluro hefyd sut y bydd galw sy'n esblygu i ddatblygu deunyddiau mwy datblygedig mewn perthynas â lefelau sgiliau a datblygiadau newydd yn y maes pwnc.

Cymorth ehangach

- 8.9 Fel sydd wedi'i nodi yn adran 6 yr adroddiad hwn, mae'r cymorth a ddarperir i athrawon yng nghyfnod allweddol 2 wedi cael effaith ar lefel ehangach yn yr ysgolion cynradd, gydag addysg ariannol yn cael ei chynnig yn y Cyfnod Sylfaen mewn nifer o ysgolion. Yn seiliedig ar gapasiti, nid yw tîm yr adolygiad

¹⁵ Bydd astudiaeth Estyn, sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd, sy'n edrych ar arfer da o ran darparu addysg ariannol yn archwilio'r materion hyn a bydd gofyn ei ystyried ymhellach pan fydd yr adroddiad a'i argymhellion ar gael.

yn meddwl ei bod yn ddichonadwy nac yn ymarferol ymestyn y rhaglen CPD i gwmpasu'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, gellid edrych ar ffyrdd eraill o hyrwyddo darpariaeth addysg ariannol yn y Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys cyfeirio at adnoddau addas ac annog ymarferwyr Cyfnod Allweddol 2 i drafod y rhain gyda chydweithwyr. Hefyd, gellid defnyddio'r cymorth ar-lein fel sylfaen i ddatblygu astudiaethau achos arfer da yn dangos ffyrdd effeithiol o weithio ar draws yr ysgol gyfan wrth ddarparu addysg ariannol.

8.10 Mae'n amlwg bod ysgolion yn chwarae rhan ganolog wrth geisio gwella gallu ariannol plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, mae dylanwad teulu a'r gymdeithas ehangach yn cael effaith allweddol hefyd. Roedd y rheiny a gafodd eu cyfweld yn cydnabod yr angen i ysgolion gynnwys teuluoedd a'r gymuned leol mewn rhaglenni addysg ariannol. Mae cynghorydd cynradd UAAC wedi darparu hyfforddiant i diwtoriaid dysgu fel teulu nifer o Awdurdodau Lleol, sef maes gwaith pwysig y dylid ei ddatblygu ymhellach.

8.11 Mae cysylltiadau wedi'u meithrin gyda sefydliadau sy'n cynnig Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, gyda chynghorwyr cynradd ac uwchradd. Mae cynghorywr UAAC wedi trefnu i gynnig sesiynau i athrawon dan hyfforddiant ar draws y cwricwlwm yn ystod tymor yr haf. Mae tîm yr adolygiad yn meddwl bod hwn yn faes gwaith y dylid ei archwilio ymhellach, gan gynnwys meithrin cysylltiadau gyda darparwyr HCA eraill yng Nghymru.

8.12 Cyfyngedig fu ymgysylltiad UAAC â sector Addysg Bellach Cymru er bod Colegau Cymru yn cydgysylltu rhaglenni o weithgarwch sylweddol i gefnogi addysg ariannol gan y sector AB yng Nghymru. Dylai UAAC ystyried a oes cyfleoedd pellach ar gael i feithrin cysylltiadau gyda sefydliadau AB drwy eu cyfeirio at ddeunyddiau ac adnoddau perthnasol ar wefan yr Uned.

Blaenoriaethu cymorth pellach

8.13 Mae'r tabl nesaf yn crynhoi casgliadau tîm yr adolygiad o ran i ba raddau y dylid blaenoriaethu amrywiol fathau o gymorth / gweithgarwch o dan drefniadau darparu yn y dyfodol.

Tabl 4: blaenoriaethu cymorth UAAC yn y dyfodol

		Lefel flaenoriaeth a gynigir		
		Uchel	Canolig	Isel
A	Rhaglen CPD (Model 1)	Uchel		
B	Cymorth i rwydweithiau a grwpiau cydgysylltwyr mewn amrywiol leoliadau (Model 2) – mae hyn yn cynnwys digwyddiadau dan arweiniad yr Awdurdod Lleol, cyfarfodydd penaethiaid a mewnbwnau byr yng nghyfarfodydd ystod o wahanol grwpiau eraill.	Uchel	/ Canolig	Isel
		Mewnbwn i gyfarfodydd cynghorywr Mathemateg / ABCCh Cymru gyfan		Mewnbwn i rwydweithiau / grwpiau eraill
C	Cymorth ar y safle i ysgolion unigol (Model 4 diwygiedig)	Uchel		
D	Parhau i ddod o hyd i adnoddau a'u tynnu ynghyd	Uchel		
E	Meithrin cysylltiadau gyda thimau dysgu fel teulu yr ALI a'u cefnogi		Canolig	
F	Meithrin cysylltiadau gyda darparwyr HCA er mwyn hyrwyddo addysg ariannol		Canolig	
G	Meithrin gwell cysylltiadau gyda'r sector AB, gan ddefnyddio gwefan UAAC i hyrwyddo adnoddau		Canolig	

Addas i'r diben ac adnoddau

8.14 Mae'r adolygiad o'r farn bod trefn a strwythur cyfredol Uned Addysg Ariannol Cymru wedi bod yn effeithiol. Mae rheoli'r Uned o AdAS, ynghyd â chymorth y grŵp cynghori, yn gwneud yn siŵr bod gan yr Uned gysylltiadau agos â gwaith parhaus i ddatblygu polisi ac y gall ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad partneriaid allweddol drwy gyfrwng y grŵp cynghori a chysylltiadau eraill. Yn seiliedig ar y farn a fynegwyd gan ymarferwyr a chynghorwyr yr Awdurdodau Lleol, mae'r Uned wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i lefelau ymwybyddiaeth a phroffil addysg ariannol. Mae adborth a gafwyd yn dilyn y cyrsiau hyfforddi yn dangos bod effaith hyn oll yn dechrau dod i'r amlwg o ran darparu addysg ariannol yn yr ystafell ddosbarth. O ystyried mai dim ond dau gynghorydd sy'n gweithio yn yr Uned, teg dweud bod yr Uned wedi cyflawni

gymaint mwy nag y gellid bod wedi breuddwydio ei wneud ar y dechrau. Mae hyn wedi digwydd yn bennaf diolch i frwdfrydedd, egni ac ymrwymiad y staff sy'n rhan o'r prosiect.

8.15 Er bod y strwythur fel ag y mae yn gweithio'n effeithiol, mae newidiadau i drefniadau ariannu – yn enwedig cyllid CFEB¹⁶ i genfogi'r Uned yn dod i ben – yn golygu y gall fod gofyn ystyried strwythurau eraill (gweler adrannau 8.19-8.21 isod). Deallir nad perfformiad UAAC nac ychwaith safon y gwasanaethau a ddarperir gan yr Uned sydd wedi arwain at ddiwedd cyllid CFEB / Gwasanaeth Cyngor am Arian. Mae diwedd y cymorth ariannol a gaiff Uned Addysg Ariannol Cymru, yn 2010-11, yn nodi diwedd strategaeth addysg ariannol 5 mlynedd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol / CFEB yn y DU ac mae'n cydweddu'n well â rôl, cyfrifoldebau a blaenoriaethau¹⁷ newydd y Gwasanaeth Cyngor am Arian fel sydd wedi'i nodi yn ei Chynllun Busnes. Yno, rhoddir llai o bwyslais ar ymyriadau mewn ysgolion er mwyn hyrwyddo llythrennedd ariannol.

8.16 Fodd bynnag, dylid ystyried sawl peth wrth gynllunio'r modd y darperir addysg ariannol yn y dyfodol.

- I ddechrau, mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei hymrwymiad wrth fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol a hyrwyddo gallu ariannol ymysg plant a phobl ifanc. Nid yw ysgolion, yn enwedig y rhien sy'n perthyn i'r sector uwchradd, fel pe baent yn barod i gyflwyno'r newidiadau a amlinellwyd yn y ddogfen ganllaw a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae sylwadau un athro yn crynhoi barn nifer o'r rheiny a gafodd eu cyfweid:

“Mae gofyn i rywun ddangos i ysgolion sut i gymhwyso addysg ariannol a sut y mae'n berthnasol i'r cwricwlwm ehangach. Nid yw sôn pa adnoddau sydd ar gael a chynnig arweiniad yn unig yn ddigon – dyma

¹⁶ Ar 4 Ebrill 2011, ailenwyd y Corff Addysg Ariannol Defnyddwyr (CFEB) yn Wasanaeth Cyngor am Arian, sef sefydliad cyngor annibynnol sy'n ceisio hyrwyddo rheoli arian yn well ymysg y cyhoedd.

¹⁷ http://www.moneyadvice.service.org.uk/_assets/downloads/pdfs/businessplan2011-12.pdf

fyddai'n cael ei golli pe byddai'r Uned yn peidio â bodoli." (Athro, ysgol uwchradd)

- Yn ail, mae'n amlwg mai tîm o ddau gynghorydd yw'r isafswm sy'n rhaid ei gael er mwyn cynnig rhaglen gymorth o safon uchel. Mae Tabl 4, uchod, yn nodi'r meysydd gwasanaeth sy'n haeddu blaenoriaeth uchel neu ganolig ym marn tîm yr adolygiad. Mae'n amheus iawn a fyddai Uned â llai o adnoddau yn gallu cynnig y gwasanaethau hyn i'r safonau gofynnol.
- Yn olaf, un o'r ffactorau a fu'n allweddol yn llwyddiant UAAC fu arbenigedd y ddau gynghorwr a gyflogwyd gan yr Uned a'r rhwydweithiau yr oeddent yn cysylltu â nhw ar lefel bersonol. Byddai manteision di-ben-draw wrth barhau â'r rhwydweithiau a'r cysylltiadau hyn wrth symud ymlaen i gam nesaf y gweithgarwch er mwyn adeiladu ar yr hyn sydd wedi'i ddysgu hyd yma. Efallai y byddai newid mewn personél yn arwain at golli peth o gof y sefydliad yn hyn o beth.

UAAC – opsiynau ar gyfer strwythur sefydliadol yn y dyfodol

- 8.17 Mae tîm yr adolygiad yn dod i'r casgliad y dylai UAAC barhau i ddarparu rhaglen o wasanaethau cymorth. O dan y trefniadau presennol, caiff costau staff yr Uned eu talu gan CFEB, gydag AdAS, Llywodraeth Cymru, yn darparu ac yn ariannu cymorth i reoli a gweinyddu. Mae cyllid AdAS yn talu am gostau a gorbenion eraill, gan gynnwys costau athrawon cyflenwi.
- 8.18 Nid yw parhau â'r status quo yn opsiwn gan fod ymrwymadau ariannol cyfredol CFEB yn dirwyn i ben ddiwedd mis Ebrill 2011 (er y bydd cynghorwyr UAAC yn parhau yn eu swyddi ar secondiad nes diwedd y flwyddyn academiaidd gyfredol). Felly, mae gofyn ystyried strwythurau sefydliadol ac ariannu eraill. O gofio hyn, mae'r adran isod yn amlinellu tri model sefydliadol eang y gallai UAAC y dyfodol weithredu oddi tanynt. Mae pob opsiwn yn cymryd yn ganiataol y bydd o leiaf dau gynghorydd llawn amser, gyda strwythurau rheoli ychwanegol hefyd.

Opsiwn 1 – UAAC i barhau'n 'fewnol' yn AdAS

8.19 O dan y model hwn, byddai UAAC yn parhau i gael ei rheoli a'i gweinyddu fel rhan o AdAS. Byddai gofyn i Lywodraeth Cymru gyflogi o leiaf ddau gynghorydd llawn amser. Bydd yr holl orbenion eraill, gan gynnwys costau athrawon cyflenwi, yn parhau i gael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, gan ofyn am ymrwymadau ariannol ychwanegol gan AdAS. Un o fanteision yr opsiwn hwn yw y byddai'n golygu y gallai gwaith yr Uned barhau fwy neu lai heb unrhyw aflonyddu. At hynny, gan y byddai'n rhan o AdAS, byddai'r Uned yn elwa ar frand a phroffil cryf y mae ysgolion yn gyfarwydd â nhw. Mae tystiolaeth o'r adolygiad hwn yn awgrymu y byddai hyn yn ased gwerthfawr wrth geisio ymgysylltu ag ysgolion a'u hannog i geisio'r cymorth a gynnigir gan yr Uned.

Opsiwn 2 – Adleoli UAAC i sefydliad allanol

8.20 Byddai'r opsiwn hwn yn golygu trosglwyddo swyddogaethau UAAC i sefydliad arall. Un sefydliad a allai gynnal UAAC o bosibl fyddai CFEB. Mae CFEB eisoes yn cynnig ystod o wasanaethau i hyrwyddo gallu ariannol ac mae ganddo bresenoldeb bach yng Nghymru. Y sefydliad a fyddai'n cynnal UAAC fyddai'n cytuno ar y rhaglen waith ac yn ei rheoli. Byddai gofyn meddwl yn fanylach am sut y byddai gwasanaethau UAAC yn cael eu hariannu o dan y model hwn. Mae achos yn bodoli dros geisio cymorth ariannol parhaus gan AdAS gan fod llawer o waith yr Uned yn debygol o barhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo addysg ariannol ar draws y cwricwlwm ym mhob ysgol. Byddai gofyn trafod lefel y cymorth y byddai sefydliad sy'n cynnal UAAC yn ei darparu. Un fantais bosibl o ddewis yr opsiwn hwn yw y bydd yn golygu y gellir datblygu ffordd integredig o weithio wrth hyrwyddo gallu ariannol, mynd ati i gwmpasu ysgolion, AB ac AU, rhaglenni i oedolion / y teulu a gweithgareddau sy'n targedu defnyddwyr yn gyffredinol. Byddai'r Uned yn endid mwy annibynnol er y byddai'n gweithio i gefnogi blaenoriaethau a nodwyd yn strategaeth cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru.

Opsiwn 3 – Rhoi gwasanaethau a swyddogaethau UAAC ar gontract

8.21 Mae Opsiwn 3 yn ymwneud â rhoi'r gwasanaethau a ddarperir gan UAAC ar gontract i sefydliad allanol. Gellid gwneud hyn drwy gyfrwng proses dendro gystadleuol gyda Llywodraeth Cymru yn diffinio'n benodol beth fyddai'r gofynion, y rhaglen gymorth a'r deilliannau a ddymunir. Mae llawer o nodweddion y model hwn yn debyg i'r hyn a gynigir gan Opsiwn 1, uchod. Byddai AdAS yn parhau i fod â'r rôl reoli gyffredinol, gan oruchwylio'r modd y darperir y contract, o bosibl gyda chymorth grŵp craffu neu grŵp cynghori bach. Byddai disgwyl i'r contractwyr annibynnol gynnal perthynas waith agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Wrth hyrwyddo ei gwaith gydag ysgolion a phartneriaid eraill, byddai'r Uned (neu'r contractiwr) yn cael ei gweld yn darparu gwasanaethau ar ran Llywodraeth Cymru, gan wneud yn siŵr ei bod yn cynnal proffil cryf ac 'awdurdod' gyda phartneriaid. Byddai'r contract yn cael ei adolygu ar ôl y 3 blynedd gyntaf i asesu pa alw a fyddai'n parhau am y gwasanaethau a ddarperir.

Yr opsiwn a ffeirir i'w ystyried ymhellach

8.22 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr adolygiad yn ffafrio mynd ar ôl Opsiwn 3, uchod. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gofyn cynnal rhagor o drafodaethau er mwyn datblygu'r opsiwn hwn ymhellach.

Argymhellion

Cymorth cyffredinol ar gyfer addysg ariannol

1. O ystyried y diddordeb sy'n parhau ymysg ysgolion i dderbyn cymorth ym maes addysg ariannol a'r galw am hyn, rydym yn argymhell y dylid parhau â'r rhaglen gymorth.

[Llywodraeth Cymru]

2. Rydym yn argymhell y dylid ystyried safle a strwythur sefydliadol UAAC ymhellach yn y dyfodol. Mae'r tîm o'r farn y dylai Opsiwn 3 yn arbennig – 'Rhoi gwasanaethau a swyddogaethau UAAC ar gontract' – fod yn destun trafodaeth fanwl gyda Llywodraeth Cymru.

[Llywodraeth Cymru]

Hyfforddiant CPD

3. Dylid parhau â rhaglen hyfforddi CPD sy'n canolbwyntio ar addysg ariannol ymysg ysgolion ledled Cymru.

[UAAC]

4. Fodd bynnag, dylid symud y pwyslais o ran cynnwys yr hyfforddiant a'r modd y'i darperir. Mae gofyn rhoi mwy o bwyslais ar gynllunio a datblygu cynlluniau gwaith sy'n ymgorffori addysg ariannol ar draws ystod o feysydd pwnc.

[UAAC]

Cyfarfodydd cydgysylltwyr yr Awdurdodau Lleol

5. Fe ddylai'r gwaith o hyrwyddo ymwybyddiaeth o UAAC drwy gyfrwng cyfarfodydd cydgysylltwyr yr Awdurdodau Lleol gael llai o flaenoriaeth o'i gymharu â modelau cymorth eraill. Lle bo'n bosibl, dylai cynghorywr yr Awdurdodau Lleol arwain y gwaith o rannu gwybodaeth am ddatblygiadau ym maes addysg ariannol a chyfeirio penaethiaid Mathemateg / ABCh at y cymorth ehangach sydd ar gael.

[UAAC ac Awdurdodau Lleol]

Cymorth ar-lein

6. Dylid parhau â'r model cymorth hwn gyda pheth gwaith addasu, o ran sut y caiff ymweliadau eu trefnu a'u strwythuro a sut y caiff yr hyn a ddysgir ei rannu. Yn benodol:
 - a. mae angen fframwaith neu resymeg glir ar gyfer dewis pa ysgolion ddylai elwa ar y cymorth hwn.
 - b. dylid sefydlu system er mwyn gwneud yn siŵr y gellir rhannu'r hyn a gaiff ei ddysgu diolch i'r cymorth dwys hwn yn effeithiol gydag ysgolion eraill ar lefel leol a chenedlaethol, gan ddefnyddio'r wefan a ffyrdd eraill o ddosbarthu.

[Llywodraeth Cymru ac UAAC]

7. Dylid cyhoeddi arferion da o ran gweithio ar lefel ysgol gyfan wrth ddarparu addysg ariannol a ddatblygwyd drwy gyfrwng y model hwn ar wefan UAAC.
[UAAC]
8. Fel rhan o'i rôl yn y dyfodol, dylai UAAC ystyried sut y mae'n cefnogi ysgolion wrth iddynt ymgorffori addysg ariannol yn rhan o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Gellid gwneud hyn drwy gyfeirio ysgolion at ffyrdd o weithio ac adnoddau sydd eisoes wedi bod yn effeithiol. Hefyd, gellir datblygu a dosbarthu astudiaethau achos o ffyrdd o weithio ar draws ysgolion cyfan i ddarparu addysg ariannol drwy gyfrwng gwefan UAAC.

[UAAC]

Adnoddau

9. Mae gweithio i adnabod, casglu a dosbarthu adnoddau er mwyn cefnogi addysg ariannol yn parhau'n dasg bwysig a dylid parhau â hyn fel mater o flaenoriaeth.

[UAAC]

10. Wrth i adnoddau pellach ddod ar gael, dylid cynyddu presenoldeb UAAC ar y we. Dylai hyn gynnwys cyfeirio at adnoddau sy'n addas i sefydliadau Addysg Bellach.

[UAAC]

11. Dylai UAAC, gan weithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a masnachol, barhau i fynd ar ôl cyfleoedd i ddatblygu adnoddau dwyieithog a Chymraeg eu hiaith

[UAAC]

Dysgu fel teulu a darpariaeth sgiliau sylfaenol

12. Dylai UAAC adeiladu ar gyswllt cychwynnol gyda thimau dysgu fel teulu gan ymestyn y cymorth a gynnigir i Awdurdodau Lleol eraill.

[UAAC]

13. Fel rhan o hyn, dylai UAAC gysylltu â rheolwyr dysgu fel teulu / cymorth i deuluoedd yr Awdurdodau Lleol a rhoi cyflwyniad i'r cymorth y gallai'r Uned ei gynnig.

[UAAC]

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

14. Dylai UAAC archwilio cyfleoedd pellach i gysylltu â darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru.

[UAAC]

Arfer da

15. Dylid hyrwyddo a dosbarthu unrhyw arfer da a welir a'i ddosbarthu'n helaeth drwy gyfrwng gwefan UAAC a thrwy ffrydiau cyfathrebu priodol eraill.

[Estyn, UAAC a Llywodraeth Cymru]

Wythnosau â Thema

16. Mae wythnosau â thema megis 'wythnosau arian' yn ffordd effeithiol o godi proffil addysg ariannol a thrwy ennyn rhieni a'r gymuned i gymryd rhan mewn

gweithgareddau, gallant gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o hyrwyddo cydlyniant cymunedol drwy gyfrwng addysg. Dylai Llywodraeth Cymru annog y gweithgareddau â thema hyn drwy gyfrwng UAAC.

[Llywodraeth Cymru ac UAAC]

Fframwaith arolygu

17. Mae canllawiau Estyn ar gyfer arolygiadau yn cydnabod yr angen i ystyried pa mor barod yw disgyblion ar gyfer bywyd a gwaith y tu allan i'r ysgol. O gofio hyn, dylai darpariaeth addysg ariannol fod yn bwnc sy'n cael rhagor o ystyriaeth fel rhan o'r broses o arolygu ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru drafod hyn ymhellach gydag Estyn.

[Llywodraeth Cymru ac Estyn]

Hwyluso cysylltiadau rhwng ysgolion a busnesau / sefydliadau ariannol

18. Dylai UAAC ystyried pa gymorth pellach y gellid ei gynnig i hwyluso gwell cysylltiadau rhwng ysgolion a busnesau / sefydliadau ariannol gan adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn digwydd. Gallai hyn gynnwys datblygu cyfeirlyfr o sefydliadau ar wefan UAAC sy'n gallu cefnogi ysgolion gan atgyfnerthu addysg ariannol drwy gyfrwng ymweliadau, cyflwyniadau neu adnoddau ychwanegol.

[Llywodraeth Cymru ac UAAC]

Atodiad 1: Canllawiau testun a ddefnyddiwyd wrth gasglu tystiolaeth

Cwestiynau a ddefnyddiwyd wrth gyfweld â chynghorwyr yr Awdurdodau Lleol a rhanddeiliaid eraill	Cyfweliadau ag athrawon (A) a phenaethiaid (P)
Thema 1: YMWYBYDDIAETH A PHROFFIL ADDYSG ARIANNOL	
– Pa effaith y mae UAAC wedi'i chael ar ymwybyddiaeth athrawon o addysg ariannol? – Sut y mae proffil addysg ariannol yn y cwricwlwm wedi newid yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf? Yn eich barn chi, pa mor bwysig fu gwaith yr Uned wrth gyfrannu at hyn? – Sut y mae cymorth UAAC wedi effeithio ar / cynorthwyo eich gwaith chi gydag ysgolion? (h.y. a oes mwy o bwyslais ar hyrwyddo addysg ariannol?)	– Beth yw eich barn chi am bwysigrwydd addysg ariannol yn y cwricwlwm ysgol? (A a P) – Sut y caiff addysg ariannol ei darparu yn eich ysgol chi? (A) – Ym mha feysydd cwricwlwm a gaiff ei darparu? (A) – Pa effaith y mae UAAC wedi'i chael ar ymwybyddiaeth o addysg ariannol yn eich ysgol? (A a P) – A yw proffil addysg ariannol wedi cynyddu yn eich ysgol? A yw hyn wedi digwydd o ganlyniad i'r cymorth a'r hyfforddiant a ddarperir gan UAAC? (A a P) – Pa effaith a gaiff addysg ariannol ar wybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o gyllid a materion cysylltiedig? (A)
Thema 2: GWASANAETHAU UAAC	
– Pa mor effeithiol yw'r gwasanaethau cymorth, yr hyfforddiant a'r cyngor a ddarperir gan UAAC? – A ydych chi wedi gweld unrhyw newidiadau yn y modd y mae	– Pa gymorth / hyfforddiant ydych chi wedi'u derbyn gan UAAC? (A) – Pa mor effeithiol oedd yr hyfforddiant / cymorth a gawsoch? (A) – A oedd y cymorth yn bodloni

ysgolion yn cynnwys addysg ariannol yn y cwricwlwm? Os ydych chi, a yw hyn wedi digwydd o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth a ddarparwyd gan UAAC? – Beth yw safon yr hyfforddiant / gwasanaethau a ddarperir gan UAAC o'u cymharu â'r rheiny a ddarperir gan sefydliadau eraill? – Beth yw eich barn, os oes gennych chi farn o gwbl, am sut y mae disgyblion wedi elwa ar gael rhagor o addysg ariannol yn yr ysgolion?	eich disgwyliadau? (A) – A fydddech chi wedi hoffi derbyn unrhyw gymorth neu gyngor ychwanegol? (A) – Beth sydd wedi newid o ran y modd y caiff addysg ariannol ei darparu ers i chi gael hyfforddiant / cymorth gan UAAC? (A a P) – Pa ymateb ydych chi wedi'i weld gan y disgyblion i unrhyw newidiadau yn y modd y darperir addysg ariannol yn yr ystafell ddosbarth? A yw hyn yn amrywio rhwng gwahanol fathau o ddysgwyr? (A)
Thema 3: DATBLYGU ADNODDAU A DEUNYDDIAU ADDYSGU	
– Sut y mae UAAC wedi cyngori ysgolion o ran defnyddio adnoddau a deunyddiau addysgu i gefnogi addysg ariannol? – Pa mor effeithiol fu'r cymorth / hyfforddiant hwn, yn eich barn chi? – Ym mha feysydd pwnc y mae cymorth sy'n ymwneud â deunyddiau ac adnoddau wedi bod fwyaf effeithiol?	– Pa gymorth ydych chi wedi'i gael gan UAAC o ran adnoddau a deunyddiau dysgu? (A) – Pa mor effeithiol oedd yr adnoddau y cawsoch eich cyfeirio atynt? (A) – A ydych chi'n defnyddio'r adnoddau hyn? (A) – Pa adnoddau sydd wedi bod fwyaf / lleiaf defnyddiol i chi? – Sut y mae'r dysgwyr wedi ymateb i'r adnoddau hyn?
Thema 4: ARFER DA	
– A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw arfer da o ran darparu addysg ariannol yn ardal eich Awdurdod Lleol chi?	– Yn eich barn chi, beth yw agweddau mwyaf cadarnhaol / llwyddiannus addysg ariannol yn eich ysgol chi? (A a P)

– Os felly, pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn arfer da? / Beth yw prif nodweddion addysg ariannol effeithiol?	– Pa effaith y mae hyn yn ei chael / yn debygol o'i chael ar ddysgwyr yn y dyfodol? (A a P)
Thema 5: CYNALIADWYEDD A GOFYNION O RAN CYMORTH YN Y DYFODOL	
– Yn eich barn chi, beth yw'r cymorth / gwasanaethau pwysicaf a mwyaf effeithiol a ddarparwyd gan UAAC? Pa mor bwysig yw hi bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cynnal? – A oes yna unrhyw gymorth arall nad yw'n cael ei gynnig ar hyn o bryd a fyddai'n fuddiol yn eich barn chi wrth hyrwyddo addysg ariannol?	– Yn eich barn chi, sut ddylai addysg ariannol gael ei datblygu / darparu yn y dyfodol? Pa gynlluniau sydd ar waith gennych chi i ddatblygu addysg ariannol ymhellach? (A a P) – Pa gymorth / hyfforddiant ychwanegol a allai helpu i wella addysg ariannol yn eich ysgol chi? (A a P) – A oes yna unrhyw rwystrau rhag darparu addysg ariannol? (A a P)
SYLWADAU ERAILL A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am waith UAAC neu addysg ariannol yn fwy cyffredinol?	SYLWADAU ERAILL A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am waith UAAC neu addysg ariannol yn fwy cyffredinol? (A a P)

Atodiad 2: Enghreifftiau o gynlluniau gwersi a ddatblygwyd

Mae'r ddwy enghraifft isod yn cysylltu Saesneg a llythrennedd ag Addysg Ariannol. Mae athrawon wedi dewis straeon byrion ac wedi dod o hyd i gyfleoedd ynddynt i ymgorffori Mathemateg ac Addysg Ariannol, gan ddatblygu sgiliau ar draws y cwricwlwm.

Enghraifft 1:

Topic / Subject: Mathematics (Financial Education)/PSE/ESDGC	
Curriculum Range	- Mathematics - ESDGC – Choices and Decisions; express and enact respect for self and others - ESDGC – Choices and Decisions; appreciate that personal actions have consequences
Curriculum Skills	- Mathematics – solve mathematical problems; develop their own mathematical strategies and ideas and consider those of others - Mathematics communicate mathematically; devise and refine their own ways of recording; explain strategies, methods, choices and conclusions to others - ESDGC Developing communication skills; ORACY – Presenting information and ideas - ESDGC Developing communication across the curriculum; WIDER COMMUNICATION Communicating ideas and emotions - ESDGC Developing number across the curriculum.
Developing skills across the curriculum	
Communication	- Oracy O2 - Wider Communication Skills WCS2
Number	- Use Mathematical Information U1/U3 - Interpret and present findings I1/I3
Thinking Skills	- Plan P1/P2/P3 - Develop D1/D3/D4/D7/D8 - Reflect R2

Enghraifft 2:

GWERS 1

Dyddiad: 24/01/11
Pwnc: Mathemateg / gallu ariannol
Sgiliau: Casglu a phrosesu'r wybodaeth sydd ei hangen er mwyn gwneud y gwaith
Ystod: Gwybod am ffyrdd confensiynol o gofnodi arian a'u defnyddio
Archwiliad ariannol: Deall sut y cawn ni arian drwy weithio – enillion
Amcan Dysgu: Erbyn diwedd y wers, bydd disgyblion yn deall y cysyniad o 'ennill bywoliaeth' yn ogystal â deall pam y mae pobl yn mynd i'r gwaith
Adnoddau: Copïau o 'Thomas and The Tinnerns' gan Jill Paton Walsh, holiaduron.

Prif weithgareddau

- Darllen pennod 1 – 3 y testun o amgylch yr ystafell ddosbarth
- Esbonio bod y llyfr wedi'i osod ym 1860 pan oedd y diwydiant mwynloddio tun yn ei anterth yng Nghernyw – roedd digon o waith fel bod pobl yn gallu ennill arian ac ati
- Tynnu sylw at y prif gymeriad 'Thomas' a'i drafod. Pwy yw Thomas? I ble y mae'n mynd? Pwy wnaeth Thomas ei gyfarfod? Pa fath o waith y daeth Thomas ar ei draws ar ei ddiwrnod cyntaf?
- Cyflwyno'r term 'ennill bywoliaeth' – gofyn i'r dosbarth am syniadau – pa fath o alwedigaethau sydd gan eu rhieni? (Bod yn sensitif)
- Rhannu'r dosbarth yn 4 grŵp – egluro'r holiadur – ei ddiben, y gynulleidfa darged, y data yr ydym yn gobeithio ei gasglu, mynd dros y cwestiynau eto
- Rhoi gwaith / swyddi i'r plant eu gwneud – clipfyrddau / camerâu / ffotograffydd / ysgrifennydd
- Plant i gyfweld ag athrawon / staff y ffreutur / y gofalwr ac ati
- Unwaith y bydd y plant yn ôl yn yr ystafell ddosbarth, casglu data – ansoddol – gweithio allan beth yw'r prif resymau pam y daw staff i'r ysgol – pam maen nhw'n gweithio? Am ba hyd y maen nhw wedi bod yn gweithio?
- Pa fath o swyddi sydd ganddyn nhw? (Cyfeirio'r dosbarth at y testun – gwahanol swyddi ac ati)
- Ailgyflwyno'r term 'ennill bywoliaeth' a'i gysylltu gyda data – plant i roi eu syniadau am pam y daw pobl i'r ysgol – a ydyn nhw'n dod yno i ennill arian? A ydyn nhw'n dod i'r gwaith er mwyn cyfarfod â phobl eraill ac i weithio gyda nhw? A oes yna bobl o bob oedran yn gweithio yn yr ysgol? A yw gwaith yn weithgaredd hirdymor?

GWERS 2

Dyddiad: 25/01/11

Pwnc: Mathemateg / Gallu ariannol

Sgiliau: Adnabod a cheisio'r prosesau sydd eu hangen i gynnal y dasg

Ystod: Gwybod am ffyrdd confensiynol o gofnodi arian a'u defnyddio

Archwiliad ariannol: Dechrau deall y cysyniad o gredyd

Amcan dysgu: Bydd disgyblion yn dod i ddeall am y gair 'credyd' a sut y mae angen amrywiol symiau o arian i dalu am amrywiol nwyddau – at hynny, bydd disgyblion yn dysgu am y gwahanol fathau o gredyd sydd ar gael er mwyn prynu nwyddau

Adnoddau: Llyfr athro 'Borrowing', llyfr disgyblion 'Borrowing' gan P.feg – copïau o 'Thomas and The Tinnerns' gan Jill Paton Walsh

Taflen waith – Gweithgaredd paru – glud / siswrn

Prif Weithgareddau

- Darllen pennod 4-6 y testun o amgylch yr ystafell ddosbarth – gan esbonio unrhyw derminoleg neu eirfa anarferol
- Canolbwyntio ar y ddeialog rhwng Thomas a Birdy – yn enwedig yr ymadrodd 'pay you back on wage day' – gofyn i'r dosbarth beth oedd ei angen ar Thomas i dalu am ei bastai? Pam nad oedd yn gallu prynu un? Trafod y syniad o pam y rhoddodd Birdy bastai i Thomas heb dalu? Mae Thomas wedi cael pastai ar gredyd – Roedd arno ef arian i Birdy am y bastai – ac ati
- Darllen llyfryn y disgyblion 'Borrowing' – darllen y stori i amrywiol eitemau â phris
- Trafod benthyciadau / morgeisi / cardiau ac ati – plant i gymryd rhan yn y gweithgaredd paru ar dudalen 12
- Plant i actio fel rhywun sy'n gweithio ym maes telewerthu a bodloni anghenion benthycia'r cwsmeriaid
- Trafod amrywiol atebion fel dosbarth a chysylltu'r stori â'r ymadrodd 'pay you back on wage day'.

